

CYNGOR SIR Y FFLINT



GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2021 / 22

A BLAENORIAETHAU 2022 / 23

Cynnwys

Adran 1		
Adran 2		
Adran 3		
Adran 4		
	Cyflwyniad	03
	Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad	04
	Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaeth	06
	Hybu a Gwella Lles y Rhai Rydym yn eu Helpu:	08
	<i>Plant a Phobl Ifanc</i>	08
	<i>Pobl hŷn</i>	12
	<i>Anghenion iechyd cyffredinol, nam corfforol a nam ar y synhwyrau</i>	17
	<i>Anableddau dysgu</i>	20
	<i>Awtistiaeth</i>	24
	<i>Iechyd meddwl (oedolion)</i>	26
	<i>Gofalwyr</i>	29
	<i>Diogelu</i>	31
Adran 5	Sut rydym yn Gwneud Beth rydym yn ei Wneud	32
	<i>a) Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu Swyddogaethau proffesiynol</i>	32
	<i>b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol</i>	34
	<i>c) Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, llywodraethu ac Atebolrwydd</i>	35
Adran 6	Dewch i Ymuno â'n Tîm	37
Adran 7	Cael gafael ar Wybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol	38
Geirfa		39
Atodiad 1	Data cyd-destunol a Mesurau Perfformiad Cenedlaethol	41

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar Wasanaethau Cymdeithasol yn cael ei baratoi o dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r naill a'r llall yn gosod gofyniad statudol ar y Cyngor i adrodd yn flynyddol ar ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae ffocws y ddeddfwriaeth hon ar les, ac mae ein hadroddiad yn crynhoi'r pethau allweddol yr ydym yn eu gwneud yn sir y Fflint i gefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed. Mae'n disgrifio ein heriau, yn rhoi darlun i'n rhanddeiliaid o sut rydym wedi perfformio a gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r rhanddeiliaid yn cynnwys y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein staff, aelodau etholedig, y cyhoedd, ein partneriaid, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hanfodol i'r hyn a wnawn, ac yn sail i ddatblygiad ein gwasanaethau a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Yn yr adroddiad, rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn erbyn blaenoriaethau gwella'r llynedd ac yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad yn cysylltu â'r Safonau Ansawdd Cenedlaethol, sy'n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol ynghylch ansawdd y gefnogaeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol fod yn ei darparu. Rydym wedi nodi wrth ymyl pob pennawd pa safon ansawdd y mae'r prosiect yn ei bodloni.

Nodir y safonau yn y tabl isod:

Pobl

SAC 1.1: Mae pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac sydd yn gallu cyflawni beth sydd yn bwysig iddyn nhw.

SAC 1.2: Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu hynod fedrus, wedi'i gymhwysu'n dda, sy'n cael cefnogaeth, yn gweithio tuag at weledigaeth a rennir.

Atal

SAC 2.1: Mae'r angen am ofal a chefnogaeth yn cael ei leihau ac mae cynnydd mewn angen yn cael ei atal, gan sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl i bobl yn cael eu cyflawni.

SAC 2.2: Mae cydnheredd yn ein cymunedau yn cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy fynd ati i annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

Partneriaethau Ac Integreiddio

SAC 3.1: Mae partneriaethau effeithiol yn eu lle i gomisiynu a darparu canlyniadau cwbl integredig, o ansawdd uchel, a chynaliadwy i bobl.

SAC 3.2: Mae pobl yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y broses o ddylunio a darparu eu gofal a chymorth fel partneriaid cyfartal.

Llesiant

SAC 4.1: Mae pobl yn cael ei hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod, ac unrhyw fathau eraill o niwed.

SAC 4.2: Mae pobl yn cael cefnogaeth i reoli'n weithredol eu lles ac i wneud eu dewisiadau eu hunain ar sail gwybodaeth fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw yn annibynnol am cyn hired â phosibl.

Rydym wedi paratoi'r adroddiad gan adlewyrchu penawdau Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru ac o dan bob pennawd, byddwn yn dangos:

- Beth yr oeddem wedi bwriadu ei wneud y llynedd a sut yr ydym wedi llwyddo,
- Pa wahaniaeth a wnaeth hyn i ganlyniadau llesiant pobl, a
- Beth yw ein hamcanion blaenoriaethol ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Unrhyw wersi a ddysgwyr o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Adran 2

Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad

Croeso i Adroddiad
Gwasanaethau Cymdeithasol
Blynyddol eleni.

Er gwaethaf yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu dros y flwyddyn ddiwethaf, nid ydym wedi rhoi'r gorau i ddarparu ein gwasanaethau mewn modd cadarnhaol. Gwelwch yn yr adroddiad hwn fod rhai o'r blaenoriaethau ar gyfer ein gwaith wedi parhau ers y llynedd. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi llwyddo i ddatblygu nifer o'n gwasanaethau.

Rydym wedi tynnu sylw isod at rai o'r prif resymau pam fod hyn wedi bod yn bosibl:

- Mae ein gwasanaethau'n canolbwyntio ar atebion ac mae ein gweithlu Gofal Cymdeithasol yn parhau i gael hyfforddiant o safon uchel drwy ein Tîm Datblygu'r Gweithlu yn ystod cyfnod heriol.
- Mae gennym bartneriaethau cadarn, cryf sydd wedi hen ennill eu plwyf gyda'n Darparwyr Sector Annibynnol.
- Mae gennym wasanaeth Gweinyddol / Cefnogaeth Fusnes ymroddedig a theyrngar, Uwch dîm rheoli a staff ymroddedig.
- Mae ein dull creadigol ac arloesol wedi arwain at brosiectau newydd a llwyddiannus fel cwblhau'r gwaith o ehangu Tŷ Marleyfield.
- Mae gennym wasanaethau mewnol cryf, Gofal Cartref, Anabledd Dysgu, gofal preswyl.
- Rydym yn arwain dulliau rhanbarthol, fel gwasanaethau Anabledd Dysgu, Gwasanaethau Awstistiaeth Integredig (IAS) a thrawsnewid Gwasanaethau Plant.
- Rydym yn cynnig lefel uchel o gefnogaeth i Ofalwyr yn Sir y Fflint
- Mae'r Rheoleiddiwr yn fodlon â'n Gwasanaethau ac mewn adroddiad AGC ar gyfer Cymru gyfan yn ddiweddar, cyfeiriwyd o leiaf 8 gwaith atom mewn perthynas ag Arfer Gorau ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant.
- Drwy gydol y pandemig rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau statudol.

Dyma rai o'n llwyddiannau allweddol o'r llynedd:

- Cwblhau'r gwaith o ehangu Tŷ Marleyfield, gan ddarparu capasiti ychwanegol ar y safle a chyfleusterau o'r radd flaenaf.
- Llwyddodd prosiect Lleisiau'r Dyfodol Lleisiau Clwyd Cyngor Sir y Fflint, a sefydlwyd gyda'n partneriaid Theatr Clwyd, i gael ei roi ar y rhestr fer ar gyfer gwobr anrhydedd arobryn a drefnwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Mae'r rhaglen Micro-ofal wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda 27 o Ficro-ofalwyr yn darparu gwasanaethau yn y Sir.
- Cwblhau'r gwaith adnewyddu yn Arosfa, gan gynyddu'r ddarpariaeth a'r capasiti i ddarparu ar gyfer preswylwyr tymor hir, a darparu gwasanaeth lleol o safon yn lle lleoliadau y tu allan i'r sir.
- Datblygu ymhellach ein camau gweithredu i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.
- Rydym wedi parhau i dyfu ac wedi datblygu ein Model cefnogi Gofalwyr Maeth Mockingbird yn llwyddiannus.
- Datblygu ein 'Cynllun Cartrefi Bach' ar gyfer plant, sydd ar hyn o bryd yn cefnogi un plentyn, ac wedi dechrau ar waith adeiladu i ddatblygu dwy Ganolfan Asesu Breswyl ar gyfer plant.
- Mae ein Rhaglen Llesiant ac Adfer wedi addasu ac ehangu i gefnogi unigolion gyda'u hiechyd meddwl a'u lles.
- Mae ein partneriaeth â Hft yn parhau i ffynnu wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu.
- Derbyn Gwobr Canmoliaeth Uchel yng [Nghynhadledd GeoPlace 2021](#) am ein dulliau arloesol, sy'n cynnwys map rhyngweithiol o gymunedau a gwasanaethau sy'n Deall Dementia.

Ym mis Medi 2021, fe wnes i gwblhau trec 7 diwrnod ar hyd ffordd hanesyddol y Pererinion a chodi £2,200 ar gyfer yr elusen anabledyddysgu Hft. Mae'n fraint i mi glywed bod y bobl a gefnogwyd wedi penderfynu defnyddio'r arian i ariannu gŵyl haf yn 2022. Yma, bydd pobl ag anabledau dysgu a'u teuluoedd yn gallu ailgysylltu ar ôl cymaint o flynyddoedd oherwydd y pandemig.

Eleni, penodwyd Prif Weithredwr newydd i'r Cyngor, Neal Cockeron. Cyn hynny, bu Neal yn Brif Swyddog Tai ac Asedau. Mae Neal wastad wedi bod yn gefnogol i ddatblygiadau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac edrychwn ymlaen at weithio'n agos gydag ef yn y dyfodol.

Hoffwn i a'r Cynghorydd Christine Jones, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, fanteisio ar y cyfle hwn unwaith eto i fynegi ein cydnabyddiaeth a'n gwerthfawrogiad o waith caled ac ymroddiad ein gweithwyr wrth ddarparu ein gwasanaethau a diwallu anghenion ein trigolion lleol. Rydym yn falch iawn o'r datblygiadau a wnaed yn ein gwasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi cael eu cynorthwyo gan ein perthynas waith gadarnhaol iawn gyda phartneriaid a darparwyr, a'n ffocws ar gydgyhyrchu gyda phobl, i gyflawni'r canlyniadau y maent am eu cyflawni.



Adran 3

Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaeth

Mae'n Flaenoriaeth bod lleisiau pobl yn cael eu clywed a'n bod yn dysgu oddi wrthynt.

Mae swyddogion wedi cadw mewn cysylltiad cyson â'r darparwyr rydyn ni'n gweithio gyda nhw, i sicrhau eu bod yn cael cymorth drwy ateb eu hymholiadau a chlywed adborth ar yr effaith mae COVID-19 wedi'i chael ar eu gwasanaethau a'r bobl sy'n eu defnyddio.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi buddsoddi mewn systemau newydd i'n galluogi i ddatblygu arolygon i gasglu adborth gan yr holl randdeiliaid. Mae hyn wedi bod yn fuddsoddiad buddiol ac mae'r adborth a gafwyd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu wedi hwyluso cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr Gofal Preswyl, Gofal Cartref a Byw â Chymorth. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfrwng gwerthfawr ar gyfer rhannu gwybodaeth a rhwydweithio, gan fod cydweithwyr o'r Tîm Iechyd yr Amgylchedd, Swyddogion Iechyd a Diogelwch a swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol ynddynt.

Cyflwynwyd rhwydwaith ar gyfer Unigolion Cyfrifol o bob maes gwasanaeth i'w cyfarfod. Er bod hyn yn ei fabandod, mae ganddynt gyfle i ddatblygu, ac un maes sy'n cael ei drafod yw datblygu 'adolygiad cymheiriaid' mewn cartrefi gofal.

Lleisiau i'w Clywed | SAC 1.1

Lleisiau i'w clywed yw grŵp cynnwys Hft ar gyfer y bobl maen nhw'n eu cefnogi.

Mae'r grŵp yn cyfrannu at ymgynghoriadau am wahanol faterion sy'n effeithio ar y gwasanaeth, yn casglu adborth/awgrymiadau ar ddatblygiadau ac yn ei ddefnyddio fel ffordd o rannu gwybodaeth. Mae'r grŵp yn trafod materion sy'n effeithio ar bobl ag Anableddau Dysgu, gan gynnwys unigrwydd ac unigedd, troseddau casineb a chynhwysiant digidol. Mae'r grŵp wedi helpu i ddatblygu manyleb y person a'r hysbyseb swydd ar gyfer gweithwyr cefnogi yn dilyn sesiwn lle gwnaethant benderfynu beth sy'n gwneud gweithiwr cymorth da a gwael. Bu'r grŵp hefyd yn adolygu ac yn datblygu polisi smygu ar gyfer pob un o'r safleoedd yn Sir y Fflint.

Yn arwyddocaol, ymgynghorwyd hefyd â phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd ynghylch sut y byddent yn hoffi gweld y gyllideb taliadau presenoldeb yn cael ei hail-fuddsoddi yn y gwasanaeth. Roedd rhai awgrymiadau'n cynnwys clwb cinio, triapiau allan a mwy o weithgareddau ar-lein. Mae rhywfaint o'r cyllid hefyd wedi cael ei fuddsoddi i ddatblygu rhaglen Project SEARCH cyntaf y DU ar gyfer pobl dros 25 oed.

Gwirfoddoli mewn Gofal Cymdeithasol | SAC 3.1

Y llynedd, rhannodd yr adroddiad y gwaith anhygoel yr oedd gwirfoddolwyr wedi bod yn ei

wneud i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol.

Mae FLVC wedi parhau i ddatblygu'r prosiect Gwirfoddoli mewn Gofal Cymdeithasol mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint. Mae FLVC wedi darparu cymorth i recriwtio gwirfoddolwyr ac adnoddau hyfforddi ac wedi creu cysylltiadau â Choleg Cambria, Prifysgol Glyndŵr ac ysgolion lleol i annog myfyrwyr H&SC Lefel 2 a 3, Blwyddyn 1 i ymgysylltu â'u cymuned a chefnogi Cartrefi Gofal Sir y Fflint gyda Gwirfoddoli i gwblhau eu lleoliadau.

Ers dechrau'r rhaglen yn 2020, mae llwyddiannau'r prosiect yn cynnwys:

- Mae 70 a mwy o wirfoddolwyr wedi cael eu cysylltu'n uniongyrchol â chartrefi gofal Sir y Fflint. Roedd llawer mwy o wirfoddolwyr â diddordeb wedi gorfod gohirio eu cais oherwydd cyfyngiadau Covid. Mae'r gwaith o recriwtio gwirfoddolwyr wedi ailddechrau erbyn hyn.
- Mynychodd 70 a mwy o wirfoddolwyr hyfforddiant FLVC sy'n barhaus ac sy'n cynnwys: Cyflwyniad i Wirfoddoli, Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol gyda hyfforddwr allanol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu; Diogelu / Urddas mewn Gofal / Iechyd a Diogelwch / Cyfle Cyfartal/Cyfrinachedd a Gweithgareddau Annog Digidol i helpu preswylwyr i gadw mewn cysylltiad â pherthnasau ar-lein.

Rhai o'r rolau y mae'r gwirfoddolwyr wedi ymgymryd â hwy yw: cyfeillio, helpu staff a

phreswylwyr gyda lluniaeth a gweithgareddau dyddiol, garddio a chefnogi preswylwyr i ddefnyddio offer TG.

Gofalwyr Ifanc | SAC 4.2

Mae gofalwyr ifanc a gefnogir gan NEWCIS yn parhau i fod yn weithgar yn y gwaith o ddatblygu'r cerdyn adnabod gofalwyr ifanc rhanbarthol, drwy ddylunio posteri a gwybodaeth.

Mae'r Grŵp Llywio Cardiau Adnabod hefyd wedi croesawu gofalwr ifanc i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau gan ddefnyddio eu profiadau eu hunain.

Lleisiau Ifanc, Uchel | SAC 3.2

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn falch o gefnogi'r grŵp Young Voices Out Loud, a barhaodd i gyfarfod yn ystod y pandemig, er ei fod ar-lein. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad uniongyrchol o'r system ofal. Collodd y grŵp gyfarfod fel grŵp, ac wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi, maen nhw nawr yn cyfarfod wyneb yn wyneb.

Mae gan y grŵp lawer o aelodau newydd yn dilyn ymgyrch recriwtio. Mae nifer o aelodau wedi bod yn y system ofal ers cryn amser. Mae'r grŵp yn rhoi cyfle iddynt rannu eu profiadau gyda phobl ifanc eraill mewn gofal neu sy'n gadael gofal, a chael ychydig o amser cymdeithasol gyda nhw hefyd. Yn ddiweddar, cafodd y grŵp drafodaeth am sut mae

pobl ifanc yn cael sylw mewn colegau ac ysgolion pan fydd tiwtoriaid neu athrawon yn trafod rolau rhieni, a sut mae'n gwneud iddynt deimlo. Maent wedi cwrdd â gweithwyr proffesiynol o nifer o asiantaethau gan gynnwys Voices From Care a gwasanaeth Eiriolaeth Tros Gynnal Plant yn ogystal â'r Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Cydlynnydd Mentoriaid Gwirfoddol i gynnig mwy o wybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Mae croeso hefyd i bobl ifanc o'r grŵp ddod i'r Fforwm Gwasanaethau Plant, sy'n cynnig mwy o gyfleoedd i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wneud gwahaniaeth i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu'n lleol.

Ymgynghoriad Strategaeth Dementia Sir y Fflint | SAC 4.2

Mae pobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw wedi cyfrannu at ddatblygu Strategaeth Dementia leol. Cwblhawyd tua 50 o arolygon, a mynychodd mwy na 100 o bobl gyfarfodydd i drafod y blaenoriaethau ar gyfer dementia yn Sir y Fflint. Derbyniwyd dros 700 o sylwadau ac awgrymiadau unigol. Defnyddiwyd yr adborth o'r ymgynghoriad i nodi blaenoriaethau allweddol a llunio cynllun gweithredu manwl.

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n benodol ar ddementia, ac mae gweithredu'r strategaeth dementia newydd yn flaenoriaeth yng nghynllun y Cyngor.

Adran 4

Hybu a Gwella Lles y Rhai Rydym yn eu Helpu

Plant a Phobl Ifanc

Haf o hwyl a Lles y Gaeaf | SAC 3.1

Mae'r prosiectau Haf o hwyl a Lles y Gaeaf yn darparu amrywiaeth o weithgareddau hamdden, adloniant, chwaraeon a diwylliannol am ddim i blant a phobl ifanc sy'n derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Lleisiau'r Dyfodol Lleisiau Clwyd Cyngor Sir y Fflint

Yn ystod haf 2021, drwy Theatr Clwyd, roedd plant a phobl ifanc yn gallu gweithio gydag amrywiaeth o bobl greadigol, gan gynnwys actorion, artist gweledol, coreograffydd, cerddor, cyfarwyddwr, canwr, cyfarwyddwr ymladd, awdur a dau reolwr llwyfan mewn sesiynau artistig llawn hwyl. Cafodd Lleisiau Clwyd effaith sylweddol ar fywydau'r bobl ifanc a'r artistiaid dan sylw. Roedd y ddau grŵp yn cydnabod y manteision i'w lles cyffredinol a'u hiechyd meddwl. Er bod y cyfyngiadau symud wedi arwain at unigrwydd, iselder a gorbryder am y dyfodol, roedd y prosiect wedi galluogi cysylltiad cymdeithasol drwy weithgareddau creadigol wyneb yn wyneb diogel. Roedd hyn yn rhoi ymdeimlad o obaith, agwedd gadarnhaol a chysyniad i'r ddau grŵp.

Rhodddwyd y Cynllun ar y rhestr fer ar gyfer gwobr [Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru](#) 2022.

"Dim ond adborth cadarnhaol y gallaf ei roi ar gyfer y cynllun. Mae hwn yn gynllun gwych, wedi'i drefnu'n dda, sy'n rhoi cyfleoedd i'n mab na fyddai ganddo fel arfer."

"Mae'n edrych ymlaen yn fawr bob dydd Sadwrn at ddod i Theatr Clwyd ac mae'n gobeithio'n fawr y cewch ragor o arian i'r cynllun barhau."

"Mae hi'n deffro ar fore Sadwrn ac mae hi'n gofyn drwy'r amser: pryd mae hi'n amser mynd?! Mae hi'n dod allan yn hapus iawn! Mae hi hefyd yn ymddangos ychydig yn llai rhwystredig!"



2021 oedd haf mwyaf llwyddiannus SHEP, Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol. Roedd dros 160 o blant a phobl ifanc rhwng 5 a 12 oed wedi elwa o'r rhaglen 'Bwyd a Hwyl', lle'r oedd chwe ysgol yn cadw eu drysau ar agor am dair wythnos gyntaf gwyliau'r ysgol.

Chwaraeodd Aura Wales ran allweddol yn y gwaith o gyflwyno gweithgareddau chwaraeon strwythuredig a gemau rhyngweithiol ym mhob ysgol. At ei gilydd, cyflwynwyd 17 o wahanol chwaraeon gyda'r holl sesiynau'n cael eu hyfforddi gan staff Datblygu Chwaraeon, a staff ymroddedig a gydlynodd y rhaglen gynhwysfawr hon o weithgareddau ar gyfer y plant a fynychodd – roedd Dodgeball, tennis a rygbi yn boblogaidd iawn!

Roedd y rhaglen hefyd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi i'r plant, gan gynnwys gwneud lampau lafa o boteli wedi'u hailgylchu, dalwyr breuddwydion, cylchoedd allwedd pren a phlaciau enw graffiti.

Roedd y plant a fynychodd yn mwynhau brecwast, byrbryd a chinio poeth iach a ddarparwyd bob dydd gan Wasanaeth Arlwygo NEWydd ac fe'u hanogwyd i roi cynnig ar fwydydd newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau bwyd ymarferol fel rhan o ffocws y rhaglen ar addysg Maeth.

Roedd llyfrgelloedd Aura a tim datblygiad chwaraeon Aura yn rhedeg y rhaglen 'Fit Fed and Read' sy'n rhoi cyfleoedd i blant wneud gweithgarwch corfforol a hyrwyddo deiet iach

drwy ddarparu byrbrydau iach. Ychwanegodd Aura elfen llyfrgell, gan ganolbwyntio ar ddarllen a chreadigrwydd. Roedd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Threfi Sir y Fflint hefyd yn y sesiynau ac yn ymgysylltu â dros 800 o bobl ifanc yn ystod y sesiynau.

Sefydlwyd Gwersylloedd Chwaraeon Haf mewn gwahanol leoliadau ar draws y Sir. Roedd y plant a oedd yn bresennol yn cael eu tywys drwy amrywiaeth o wahanol weithgareddau chwaraeon, gan weithio mewn timau a datblygu eu sgiliau unigol.

Cynhaliwyd cynlluniau chwarae sefydledig ledled y Sir, gan gynnwys sesiynau ychwanegol i blant ag anableddau. Yn gyffredinol, cofrestrodd dros 2,700 o blant 5-12 oed i fynychu'r 1,055 o sesiynau chwarae ledled y sir.

Darparodd [Darpariaeth Integredig i Ieuenctid](#) Sir y Fflint sesiynau galw heibio ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ym Mharc Wepre. Denodd pob sesiwn dros 25 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn rhaglenni wedi'u cynllunio o weithgareddau celf a chreffft, gweithgareddau chwaraeon hwyliog a sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar a lles.

Roedd dros 100 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a thrafodaethau mewn sesiynau wedi'u trefnu gan [Flintshire Sorted](#), ac roeddent yn fwy ymwybodol o beryglon defnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, tybaco a diodydd egni. Bu fîm Cynhwysiad a Chynnydd Sir y Fflint yn helpu pobl ifanc i roi cynnig ar amrywiaeth o

weithgareddau, gan gynnwys cymorth cyntaf i anifeiliaid anwes, gwneud cacennau, gwneud crochenwaith, trip i'r traeth, Theatr Clwyd, Ystâd Fferm Rhug a dringo yn Boardroom.

Fel rhan o [gynllun Lles y Gaeaf](#) Llywodraeth Cymru, parhaodd y cyfleoedd gwych hyn, gyda gwasanaeth hamdden Aura a llyfrgelloedd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i blant a phobl ifanc eu mwynhau, o glybiau gwyliau i weithdai ysgrifennu creadigol, i hyrwyddo lles y corff a'r meddwl.

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys sesiynau yn y parc sglefrio gwynt newydd yng Nglannau Dyfrdwy, ymweliad â'r parc sglefrio, chwarae meddal a bowlio, ymgyrch ddarllen i hyrwyddo pŵer llyfrau a darllen.

Tîm cefnogi'r blynyddoedd cynnar

| SAC 2.2

Mae'r Cynnig Gofal Plant i Blant 3-4 oed yn parhau i fynd o nerth i nerth bob blwyddyn gan alluogi plant rhieni sy'n gweithio i dderbyn hyd at 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar gyfun, am hyd at 48 wythnos bob blwyddyn. Mae'r rhaglen wedi bod mor llwyddiannus a chafwyd dysgu lleol a chenedlaethol, gan nodi'r angen i ehangu'r rhaglen ymhellach. Mae'r fîm wedi bod yn gweithio ar system genedlaethol gyda Llywodraeth Cymru, gyda mewnbwn sylweddol gan Sir y Fflint o ganlyniad i ddatblygu system bwrrpasol Sir y Fflint. Bwriedir cyflwyno'r system genedlaethol ddiwedd

2022-23; ac mae'r fîm wedi cefnogi ymestyn y Cynnig i rieni cymwys mewn addysg a hyfforddiant o fis Medi 2022 ymlaen. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous.

Oherwydd grant Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, mae'r sector darparwyr gofal plant wedi elwa o gynlluniau cyfalaf bach, lle gallai darparwyr wneud cais am grant o hyd at £10,000 i ddatblygu eu darpariaeth, yn seiliedig ar feini prawf penodol. Ar gyfer eleni, derbyniwyd 71 o geisiadau, gyda buddsoddiad o £378,194.07. Ar gyfer y cynlluniau cyfalaf mawr, mae 5 cynllun wedi'u cwblhau sy'n darparu llwybrau cryf rhwng gofal plant y blynyddoedd cynnar ac addysg gynnar. Mae'r rhain yn cynnwys Bagillt Merllyn; Maes y Felin, Treffynnon; Westwood, Bwcle; Ysgol Derwen, Higher Kinnerton; Ysgol Sychdyn, Sychdyn gyda buddsoddiad o £2,361,318.58. Mae 5 cynllun arall ar y gweill: Caerwys; Shotton; Carmel; Chwitfordd a Bagillt. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth go iawn i greu darpariaeth gofal plant modern o safon, gan ddarparu sylfeini cadarn i blant wrth iddynt ddatblygu i fod yn oedolion.

Cynllun Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar

| SAC 2.2

Mae Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar wedi gweld cynnydd da yn cael ei wneud tuag at wasanaethau blynyddoedd cynnar di-dor ar draws pob sector, gyda chymorth goruchwyliaeth gan y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar. Mae gwaith rhanbarthol



yn cyfrannu'n sylweddol at gynnydd, gan alluogi dysgu a phrofi ar y cyd ym mhob ardal ar draws ôl troed y Bwrdd Iechyd. Mae'r blaenoriaethau a Strategaeth Blynyddoedd Cynnar drafft wedi cael eu cymeradwyo gan y Bartneriaeth a byddwn yn ymgynghori arnynt yn ystod 2022. Ar gais Llywodraeth Cymru, mae Sir y Fflint wedi ymgymryd â'r rôl arweiniol ar gyfer y cydweithio Rhanbarthol ar Integreiddio a Thrawsnewid y Blynyddoedd Cynnar a ddechreuodd ym mis Mawrth 2022.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r Cynllun Braenaru am ddwy flynedd arall. Bydd y rhaglen waith yn cynnwys blaenoriaethau fel ehangu Dechrau'n Deg, mwy o gymhwysedd i'r Cynnig Gofal Plant i rieni sy'n cael eu hyfforddi, ffocws ar ofal plant o safon a digon o leoedd a datblygiad cynnar yn ystod plentyndod a'r effeithiau ar blant a enir yn ystod y pandemig, yn enwedig lleferydd, iaith a chyfathrebu a datblygiad y rhaglen magu plant gwirfoddol Grymuso Rhieni, Grymuso Cymunedau. Bydd cyflawni'r ehangu'n heriol oherwydd y galw ychwanegol ar adnoddau. Mae'r gwaith a gyflawnwyd eleni wedi llwyddo gyda'r cynlluniau cychwynnol, ac mae'r blaenoriaethau'n mynd rhagddynt ar gyfer 2022-24.

Gwasanaeth eiriolaeth i blant | SAC 1.1

Mae'r gwasanaeth eiriolaeth plant wedi cael ei adolygu a bydd yn cael ei ailgomisiynu y flwyddyn nesaf i ystyried unrhyw fylchau a ganfuwyd.

Datblygiadau arosfa | SAC 3.1

Mae Gwasanaeth Gwyliau Byr Arosfa yn cynnig gwyliau preswyl tymor byr ar adegau penodedig rheolaidd sy'n cynnwys aros dros nos, ganol wythnos ac ar benwythnosau i blant a phobl ifanc ag anabledau difrifol. Gan ddefnyddio arian o'r Gronfa Gofal Integredig, mae adain heb ei defnyddio yn Arosfa wedi cael ei hadnewyddu, ac mae hyn wedi cynyddu capasiti'r gwasanaeth.

Ym mis Ebrill 2021, cafodd y gwaith adnewyddu yn Arosfa ei gwblhau gan gynyddu'r ddarpariaeth i 5 gwely yn Arosfa. Mae'r gwelyau hyn yn darparu capasiti ar gyfer preswylwyr hirdymor parhaol, ac yn darparu gwasanaethau lleol o safon fel dewis arall yn lle lleoliadau y tu allan i'r sir. Mae'r datblygiad yn cefnogi blaenoriaeth strategol 2021/22 y Cyngor i ddarparu darpariaeth uniongyrchol i gefnogi pobl yn nes at eu cartref, drwy sefydlu Cartref Plant cofrestredig i helpu i osgoi'r angen am leoliadau preswyl y tu allan i Sir y Fflint, a thrwy ddatblygu gwasanaethau seibiant i deuluoedd sydd â phlant anabl.

"Rydw i'n meddwl bod Arosfa yn wasanaeth gwych, byddwn i ar goll oni bai am Arosfa"

"Roeddwn i angen y gwyliau 3 diwrnod y mis yma gan ein bod ni wedi cael amser anodd iawn yn ddiweddar. Rwy'n ddiolchgar iawn i Arosfa am eu cymorth a'u cefnogaeth."

Tŷ Nyth | SAC 2.1

Er gwaethaf yr ymrwymiad i atal ac ymyrryd yn gynnar, bydd cyfran fach o blant sy'n derbyn gofal angen lleoliadau preswyl bob amser, ac mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol eisiau sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn gallu aros yn agos i'w cartrefi.



Mae timau wedi parhau i weithio i gyflawni'r amcan hwn o ddarparu gofal preswyl lleol yn Sir y Fflint, gan ddefnyddio cyllid o'r Rhaglen Drawsnewid pobl ifanc.

Mae Tŷ Nyth yn yr Wyddgrug yn eiddo a brynwyd gan Gyngor Sir y Fflint ar ran Sir y Fflint a Wrecsam, a bydd yn darparu llety preswyl tymor byr i bedwar o blant, ynghyd ag un ystafell argyfwng, ar gyfer plant rhwng 11 a 18 oed.

Ochr yn ochr â'r Tîm Gofal Preswyl, bydd Tîm MST-FIT arbenigol (Trawsnewid Integredig i Deuluoedd-Therapi Aml-Systemig) ar y safle i gefnogi pobl ifanc sy'n cael eu lletya yn y gwasanaeth ochr yn ochr â'u teuluoedd. Bydd y Tîm yn nodi materion a all achosi anawsterau er mwyn cynllunio i ddychwelyd adref yn llwyddiannus. Dyma'r ddarpariaeth gyntaf o'i fath yng Nghymru.

Mae gwaith adnewyddu'n mynd rhagddo'n dda i ddarparu dau gartref cofrestredig bach arall ar

gyfer plant a phobl ifanc o Sir y Fflint sydd angen gofal preswyl tymor hir. Mae disgwyl i'r rhaglen adeiladu gael ei chwblhau erbyn Haf/Hydrif 2022.

Maethu | SAC 4.2

Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i wella'r [gwasanaeth Maethu](#), mae model teulu Mockingbird wedi cael ei roi ar waith. Mae'r model hwn yn efelychu teulu estynedig mewn clystyrau o 6-10 cartref maeth. Mae'r clwstwr yn cael ei gefnogi gan ofalwr Hwb sy'n darparu gofal cysgu dros nos mewn argyfwng ac wedi'i gynllunio, yn ogystal â chynghor, hyfforddiant a chefnogaeth'.

Ar ôl lansio'r clwstwr 1af ym mis Ionawr 2020, a'r ail ym mis Chwefror 2021, mae trydydd clwstwr bellach wedi'i sefydlu ym mis Tachwedd 2021, ac mae'n cefnogi 4 o deuluoedd lloeren, sy'n cynnwys 8 o blant sy'n derbyn gofal, a 5 o blant naturiol.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- Datblygu Strategaeth Blynnyddoedd Cynnar i sicrhau bod pob plentyn rhwng 0 a 7 oed yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd a'u bod yn gallu cyflawni eu llawn botensial. | SAC 2.1
- Rhoi'r model ymyriadau therapiwtig ar waith mewn cartrefi i blant mewn grwpiau bach. | SAC 2.1
- Parhau i ddatblygu'r gwasanaeth maethu mewnol i gefnogi mwy o blant sy'n derbyn gofal. | SAC 3.1
- Parhau i ddatblygu gwasanaethau i gefnogi lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. | SAC 3.1
- Parhau i ddatblygu gwasanaethau maethu gan ddefnyddio model Mockingbird. | SAC 3.1
- Ailgomisiynu gwasanaethau seibiant i blant. | SAC 3.1
- Datblygu gwasanaethau darparwyr ar gyfer Plant i gefnogi datblygiadau cartrefi newydd. | SAC 3.1
- Sefydlu Cartref Plant cofrestredig i helpu i osgoi'r angen am leoliadau preswyl y tu allan i Sir y Fflint. | SAC 3.1

Adran 4

Pobl hŷn



Mae COVID-19 wedi parhau i gael effaith ar gymunedau lleol. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio i ddarparu gwasanaethau gyda chyn lleied â phosibl o darfu, gyda mesurau diogelwch ar waith, gan sicrhau bod pobl yn ddiogel yn y manau lle maent yn byw. Mae'r timau wedi cael cymaint o ganmoliaeth, gan bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

"Rydw i mor ddiolchgar am yr hyn rydych chi wedi'i wneud i'm Tad. Rwy'n gwybod erbyn hyn pa mor galed rydych chi'n gweithio ym maes gwasanaethau cymdeithasol ac mae'n debyg mai chi yw'r rhai olaf i gael cydnabyddiaeth amdano, felly rwy'n teimlo ei bod hi'n bwysig i mi ddweud hynny wrthydych chi, felly diolch yn fawr."

"Diolch o galon i chi am eich holl waith caled ac am gynllunio ar gyfer ein mam. Byddwn bob amser mor ddiolchgar am ba mor broffesiynol, gofalgar a chymwynasgar ydych chi. Mae gennych chi a'ch cydweithwyr swydd mor anodd a llawn straen, ond mae eich ymroddiad yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau unigolion ac i fywydau eu teuluoedd. Yr ydych yn aml yn sicrhau y gofelir am y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas."

Tŷ Marleyfield | SAC 2.1

Cafodd y gwaith o ehangu Cartref Gofal Preswyl [Tŷ Marleyfield](#) ei gwblhau ym mis Mai 2021. Mae'n darparu 32 ystafell wely ychwanegol, gan ddod â'r cyfanswm i 64.

Mae'r datblygiad newydd yn fodern, gyda lle personol yn yr awyr agored ar gyfer pob un o'r ystafelloedd newydd.

Mae 16 o'r gwelyau'n cael eu defnyddio ar gyfer arosiadau tymor byr, gan gefnogi rhyddhau o'r ysbyty drwy fodel 'rhyddhau i adfer ac asesu', ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, a ariennir gan y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol. Mae hwn ar gyfer y rheini sy'n ddigon iach i adael yr ysbyty, ond efallai y bydd angen asesiad pellach a chymorth therapiwtig arnynt gan dîm ymroddedig sy'n gweithio ar y safle cyn iddynt ddychwelyd adref.

“Roeddwn i'n meddwl y byddai fel ysbyty ond mae'n debycach i westy pedair seren, does dim byd yn ormod o drafferth, mae'r bwyd yn anhygoel, mae'n lle gwych. Rydw i wedi gwella cymaint, dydw i erioed wedi chwerthin cymaint ac rydw i wedi ceisio bod mor annibynnol ag y byddwn i wedi bod gartref. Rydw i'n ei sgorio'n 100%, mae'n haeddu pob canmoliaeth”



Croes Atti | SAC 2.1

Mae cynlluniau ar y gweill i symud Cartref Gofal Croes Atti i adeilad modern, gyda 25 o ystafelloedd newydd ychwanegol, sydd bron yn dyblu nifer y lleoliadau sydd ar gael ar hyn o bryd. Symudodd yr ailddatblygiad £15 miliwn hwn gam ymlaen ym mis Chwefror 2022, gyda chwblhau'r gwaith o drosglwyddo tir o'r Bwrdd Iechyd i Gyngor Sir y Fflint.

Bydd Cartref Gofal newydd Croes Atti yn dilyn model tebyg i Marleyfield, gyda mwy o gapasiti ar gyfer darpariaeth 'rhyddhau i adfer ac asesu' yn y sir.

Micro-ofal | SAC 1.1

Er mwyn diwallu'r galw cynyddol am ofal yn y gymuned, sefydlwyd y prosiect [Micro-ofal](#) i ehangu'r cyflenwad gofal a'r dewisiadau sydd ar gael i bobl ledled Sir y Fflint. Mae mentrau micro-ofal yn fusnesau bach sy'n amrywio o fasnachwyr unigol i fusnesau sy'n cyflogi 5 o bobl sy'n cynnig gwasanaethau gofal a chymorth hyblyg a phersonol i bobl, wedi'u teilwra i anghenion eu unigolyn.

Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yma, gyda 20 o ficro-ofalwyr wedi sefydlu ac yn darparu dros 26,000 awr o gymorth gofal a lles dros gyfnod y cynllun peilot. Mae'r rhaglen bellach

yn cael ei gwreiddio fel rhan o gynnig Sir y Fflint.

Ceir llif cyson o ymholiadau gan bobl sydd â diddordeb mewn datblygu busnes Micro-ofal, ac mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn croesawu eu brwdfrydedd, eu syniadau a'u creadigrwydd.

Rhoddwyd sylw i'r prosiect ar [newyddion ITV](#).

Datblygiadau Gofal Ychwanegol | SAC 2.2

Mae Gofal Ychwanegol yn parhau i fod yn ddewis tai hynod boblogaidd i bobl hŷn yn Sir y Fflint, sy'n rhoi'r cyfle iddynt fyw'n annibynnol a chael cefnogaeth fîm gofal a chymorth ar y safle, os a phan fo angen. Mae hyn, yn ei dro, yn rhyddhau capasiti ac amser mewn gofal cartref yn y gymuned. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor 4 cyfleuster Gofal Ychwanegol, Llys Eleanor (Glannau Dyfrdwy), Llys Jasmine (Yr Wyddgrug), Llys Raddington (Y Fflint) a Phlas Yr Ywen sydd newydd ei feddiannu (Treffynnon).

[Plas Yr Ywen](#) yw'r pedwerydd cynllun gofal ychwanegol i'w agor yn Sir y Fflint. Mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Wales and West, agorodd ym mis Mawrth 2021 ac mae'n cynnwys 55 fflat un ystafell wely a dwy ystafell wely sy'n cefnogi byw'n annibynnol. Mae'r cynllun wedi cael blwyddyn arbennig o lwyddiannus ar ôl agor yn ystod y pandemig. Er bod hyn yn peri rhai heriau

i'r fîm a'r tenantiaid, maen nhw dal wedi llwyddo i greu lle bywiog a chyffrous i fyw ynddo.

Mae'r llwyddiant wedi'i adeiladu ar dîm gofal sydd wedi hen ennill ei blwyf o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a chymorth tai o Wales and West. Mae hyn wedi helpu tenantiaid i setlo'n gyflym. Un maes sydd wedi bod yn anodd oherwydd y pandemig yw darparu gweithgareddau, gyda llawer yn digwydd ar-lein a llai o gyfle ar gyfer gweithgareddau grŵp cymdeithasol wyneb yn wyneb. Mae hyn yn newid yn araf wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.

Strategaeth Dementia | SAC 3.2

Nod [Strategaeth Dementia Sir y Fflint](#) yw gwella bywydau pobl sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr a'u teuluoedd, a datblygu cymunedau cefnogol a gwybodus.

Cynhaliwyd proses ymgynghori rhwng mis Mai a mis Awst 2021, a oedd yn ymgysylltu â phobl â phrofiad uniongyrchol, gan gynnwys gofalwyr a theuluoedd, grwpiau cymunedol, gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd, partneriaid gwasanaeth y trydydd sector a darparwyr gofal annibynnol. Defnyddiwyd yr adborth i nodi blaenoriaethau allweddol a llunio cynllun gweithredu manwl.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi'r camau hyn ar waith, sy'n cynnwys gwella gwybodaeth am ddementia, sefydlu gweithgareddau a grwpiau

i bobl eu mynychu, gan sicrhau bod y cymorth priodol ar gael i bobl cyn ac ar ôl cael diagnosis. Un o'r prif feysydd ffocws yw helpu pobl i fynd allan, a chwrrd yn y gymuned yn dilyn cyfyngiadau Covid. Mae nifer o Gaffis y Cof a grwpiau sy'n ystyriol o oedran ledled y sir nad ydynt wedi bod ar agor ers amser hir. Mae'r rhain bellach yn dechrau ailagor ac yn croesawu pobl o bob rhan o Sir y Fflint.

Mae hyn yn gyfochrog â gwaith Strategaeth Dementia Gogledd Cymru, ac yn cyd-fynd â'r gwaith hwnnw.

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n benodol ar ddementia, ac mae gweithredu'r strategaeth dementia newydd yn flaenoriaeth yng nghynllun y Cyngor.

Heneiddio'n Dda | SAC 2.2

Gwnaed cynnydd cadarnhaol i barhau i ddatblygu cymunedau ystyriol o oedran ar draws y sir.

Bydd datblygu cymunedau sy'n ystyriol o oedran yn parhau gan ganolbwyntio ar gyflwyno cais i Sir y Fflint ddod yn aelodau o [Rwydwaith Bydeang Sefydliad Lechyd y Byd o Gymunedau Oed-Gyfeillgar](#). Mae Swyddog Ymgysylltu Heneiddio'n Dda wedi cael ei recriwtio i arwain gwaith ymgysylltu â'r gymuned i gefnogi'r prosiect hwn.

Darparwyr Annibynnol/Cynnydd ar gyfer Darparwyr | SAC 3.1

Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu wedi parhau i hwyluso cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr Gofal Preswyl, Gofal Cartref a Byw â Chymorth. Mynychwyd y cyfarfodydd hyn hefyd gan gydweithwyr o Dîm lechyd yr Amgylchedd, Swyddogion Lechyd a Diogelwch a swyddogion Bwrdd Lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn i bartneriaid allu cynghori a rhoi cefnogaeth pan fo angen, ac maent yn fan cychwyn gwerthfawr ar gyfer rhannu gwybodaeth a rhwydweithio.

Ar ôl gweithio'n agos gydag adran lechyd yr Amgylchedd, roedd cartref gofal Wellfield yn Sir y Fflint yn gallu trefnu'n ddiogel i rai o'u preswylwyr fwynhau taith i Blackpool.

"Wel, y llynedd roedden ni yng nghanol cyfnod clo a doedden ni ddim yn gallu gwneud ein trip blynyddol i Blackpool, felly fe wnaethon ni baratoi ar ei gyfer eleni."

"Roedden ni'n chwerrthin, yn canu, yn chwifio ein ffyn golau ac yn cael yr amser gorau...Roedden ni i gyd wrth ein bodd yn gweld y goleuadau, allwn ni ddim aros i wneud hyn eto y flwyddyn nesaf, mae'n hollol Ffantastic cael dod yn ôl allan eto a cheisio byw bywyd llawn hwyl arferol!!"

Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- Parhau i dyfu'r farchnad gofal Micro. | SAC 3.2
- Sefydlu Grŵp Gweithredu Strategaeth Dementia, i gynnwys cynrychiolaeth o bobl sydd â phrofiad uniongyrchol. | SAC 4.2
- Parhau i ddatblygu'r gwasanaeth gofal cartref mewnol i gefnogi mwy o bobl i fyw gartref a lleihau ymhellach yr oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty lle mae angen pecyn gofal. | SAC 4.2
- Ymestyn y cyflenwad o Ofal Ychwanegol ymhellach. | SAC 4.2
- Cynllunio i ddarparu lleoliadau ychwanegol ar gyfer 'rhyddhau i adfer ac asesu' yn y ddarpariaeth fewnol (Croes Atti). | SAC 3.1

Adran 4

Anghenion iechyd cyffredinol, nam corfforol a nam ar y synhwyrau

Nod gwasanaethau anabledd yw cefnogi pobl i fod mor annibynnol ag y gallant fod, gan leihau'r ddibyniaeth ar gymorth â thâl dros amser. Un maes a nodwyd ar gyfer datblygu oedd darparu llety addas, a buddsoddwyd yn hyn dros y flwyddyn ddiwethaf.

Glan y Morfa | SAC 4.2

Llety 'cam i fyny / cam i lawr' dros dro yw Tŷ Glan y Morfa ar gyfer pobl sydd ag anabledd corfforol. Gall y bobl sy'n mynd i'r tŷ fod yn ddigartref, neu'n methu â dychwelyd adref dros dro oherwydd bod addasiadau wedi'u cynllunio'n cael eu gwneud i'w cartref presennol. Tra yn y tŷ, mae'r unigolion yn cael eu cefnogi i wella eu lles a'u hannibyniaeth, fel eu bod yn gallu byw mor annibynnol â phosibl pan fyddant wedi dychwelyd i'w llety eu hunain neu lety mwy parhaol. Mae hon yn fenter ar y cyd rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Tai a dechreuodd ym mis Chwefror 2021.

Ers ei agor, mae Glan y Morfa wedi cael ei ddefnyddio'n gyson, gan gynnig llety dros dro i ddau berson ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty tra byddant yn aros am dai mwy parhaol.

Llys Yr Iâl | SAC 4.2

Mae Llys yr Iâl yn fflatiau hunangynhwysol sy'n darparu llety hunangynhwysol i oedolion ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anableddau corfforol. Pan fydd angen asesedig, bydd unigolion

yn cael gofal a chymorth priodol i'w galluogi i fyw'n annibynnol. Mae'r gefnogaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau ac mae pob person wedi dod yn fwy annibynnol ers symud yno.

Mae'r model hwn yn rhoi cyfle i breswylwyr fyw'n annibynnol a chael mwy o ddewis o'r ffordd maen nhw'n byw eu bywyd mewn amgylchedd lle maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi a'u trin â pharch. Mae'r bobl ifanc sy'n byw yno hefyd wedi ffurfio cyfeillgarwch a grwpiau cymdeithasol cryf.


"Mae'n dda cael fflat fy hun a gallaf weld fy ffrindiau."

"Rwy'n hoffi'r annibyniaeth."

Taliadau Uniongyrchol | SAC 3.2

Mae Taliadau Uniongyrchol yn symiau ariannol a ddarperir gan awdurdodau lleol i unigolion, eu cynrychiolwyr a Gofalwyr i'w galluogi i drefnu atebion pwrpasol sy'n diwallu eu hanghenion gofal a chymorth a aseswyd.

Mae taliadau uniongyrchol yn fecanwaith pwysig i alluogi pobl i arfer dewis, llais a rheolaeth i benderfynu sut i ddiwallu eu hanghenion am ofal a chymorth a chyflawni eu canlyniadau personol.



Mae'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, gyda 498 o bobl yn cael Taliad Uniongyrchol yn Sir y Fflint rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021. Dyma'r nifer uchaf o dderbynwyr fesul pen o'r boblogaeth mewn unrhyw Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu 39% o'r gwasanaethau y mae pobl yn eu derbyn yn eu cartrefi.

"Mae'n rhoi'r rhyddid i ddefnyddio'r arian i gyfoethogi bywyd fy mab mewn ffyrdd sy'n gweddu orau i'w anghenion a'i les. Rwy'n recriwtio Cynorthwyr



Personol ar gyfer fy mab er mwyn iddo gael cymysgedd o oeddrannau a rhywiâu ac rwy'n hyfforddi fy hun i'w helpu i ddeall ei anghenion yn well".

Gan weithio mewn partneriaeth â chwmni ffilm lleol bach, Follow Films, mae'r Tîm Taliadau Uniongyrchol wedi cefnogi derbynwyr Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint i adrodd eu straeon unigryw am eu bywydau a sut mae taliadau uniongyrchol wedi cyfrannu at gyflawni canlyniadau cadarnhaol a gwella profiadau bywyd. Mae'r fideos wedi'u gosod mewn adrannau o'r Porth Taliadau Uniongyrchol.

Mae taliadau uniongyrchol yn galluogi unigolion i fwynhau profiadau bywyd newydd a datblygu eu hyder.

"Roedd E yn rhan o gynllun Hwyl Haf 2021 Theatr Clwyd, ac mae ei fwynhad parhaus o berfformio wedi arwain at gyfleoedd eraill. Yn ddiweddar, perfformiodd E yn y Story House yng Nghaer gyda'i grŵp Drama.

Wrth berfformio, mae'n dod yn fyw. Un diwrnod mae E yn 'mynd i fod ar y llwyfan' a byddai'n 'hoffi swydd yn gweithio fel diddanwr gwersyll gwyliau'. Ar y chwith mae llun ohono'n perfformio ei sioe bypedau yn Alexandra's Jazz Bar, Caer!"

Ar y chwith mae llun ohono yn perfformio ei sioe pypeddi ym far Jazz Alexander's yng Nghaer!

Menter Cymorth Cymunedol (CSI)

| SAC 3.1

Ym mis Hydref 2018, comisiynwyd sefydliadau i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned i ddinasyddion yn Sir y Fflint sy'n byw ag anabledd. Dyfarnwyd pob contract i fudiad trydydd sector gwahanol yn dilyn proses dendro, gan gynnwys [Keyring](#), [Rhwydwaith Cefnogi Pobl Fyddar](#) (DSN), a'r [Ganolfan Golwg a Sain](#).

Cynlluniwyd pob gwasanaeth i ddarparu cefnogaeth i unigolion yn y gymuned sy'n byw gydag anabledd, gan alluogi a chefnogi eu hannibyniaeth a chynnal eu lles. Yn yr un modd â llawer o wasanaethau, mae'r pandemig wedi effeithio ar y ffordd mae'r gwasanaethau hyn wedi bod yn darparu eu cymorth, ac mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfle i ddychwelyd at ddarparu gwasanaethau arferol ar yr un pryd â chefnogi anghenion penodol y mae'r pandemig wedi eu hamlygu.

Yr uchafbwynt mwyaf yn ystod y 12 mis diwethaf ar gyfer y gwasanaethau yw ymgysylltu â'r gymuned wyneb yn wyneb mewn ffordd ddiogel a chyson, pan fo'r cyfyngiadau wedi cael eu llacio.

"Mae V wrth ei fodd yn mynychu'r ganolfan Keyring leol ac yn ymuno â'r amrywiaeth o weithgareddau sydd gan grŵp cymunedol Outside Lives i'w cynnig. Mae V yn hoffi cwrdd â phobl newydd a dod yn fwy cymdeithasol. Mae V yn teimlo'n llai ynysig ac yn llawer hapusach."

Keyring

"Fe wnes i siarad â D ar y ffôn ar ôl ychydig wythnosau ar ôl rhoi'r Symbol Cane i weld sut roedd hi'n bwrw ymlaen. Dywedodd D fod hwn wedi bod yn adnodd sy'n newid ei bywyd ac mae wedi rhoi hyder iddi pan oedd yn y gymuned gyda'i gŵr neu ei mam."

DSN

"Roedd yn hapus iawn gyda'r offer. O'r diwedd, gallai gael ychydig o annibyniaeth yn ôl drwy allu siarad â phobl ar y ffôn, trefnu ei apwyntiadau ei hun a siarad â'i deulu. Gallai hefyd fwynhau gwyllo'r teledu gyda'i bartner heb iddi ddweud wrtho am ei droi i lawr, neu ddibynnu ar ddarllen yr isdeitlau."

Ganolfan Golwg a Sain

Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23 :

- Parhau i arwain Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru. | SAC 3.1
- Cynyddu'r defnydd o'r Model Cynnydd ar draws gwasanaethau i bobl ag anableddau corfforol, a meysydd gwasanaeth eraill i'w cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. | SAC 2.1
- Datblygu llety brys tymor byr ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu sydd angen llety ar frys. | SAC 4.1
- Hyrwyddo defnydd creadigol o daliadau uniongyrchol gydag unigolion a gofalwyr er mwyn cyflawni eu canlyniadau. | SAC 3.2

Adran 4

Anableddau dysgu

Rhaglen Anabledd Dysgu Gyda'n Gilydd

Mae'r Rhaglen Anabledd Dysgu Gyda'n Gilydd yn bartneriaeth sy'n cynnwys adrannau gofal cymdeithasol y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nod y prosiect yw cydgyhyrchu gwasanaethau gyda phobl ag anableddau dysgu a'u rhieni a'u gofalwyr.

Mae chwe deg wyth o brosiectau wedi cael eu sefydlu ers hynny i gefnogi Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru 2018 i 2023 ac mae dros 125 o 'rolau' wedi cael eu creu ar gyfer dinasyddion a gofalwyr, gan adeiladu ar eu cryfderau unigol.

Cyrhaeddodd y Cynllun y rhestr fer ar gyfer Gwobr [Anrhydedd Gwasanaethau Cymdeithasol](#) 2022.

Gwasanaethau Anableddau Dysgu gyda Hft | SAC 2.2

Mae'r bartneriaeth gyda Hft ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu wedi parhau i gryfhau ac arloesi. Darparu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu ar ran y Cyngor, drwy ganolfan ddydd a chymysgedd o gyfleoedd dydd.

Fel rhan o'r datblygiadau arloesol parhaus mewn gwasanaethau anableddau dysgu, mae Abbey Metal wedi cael ei ail-lansio fel 'Abbey Upcycling'. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl



ag anableddau dysgu mewn tri gweithgaredd penodol sy'n galluogi'r rhai sy'n cael cymorth i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau newydd. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys uwchgyrchu beiciau, gwneud ac uwchgyrchu dodrefn a nwyddau cartref, a defnyddio electroneg wedi'u hailgyrchu i wneud pedalau gitâr.

“Rydyn ni'n edrych ymlaen yn arw at ail-lansio Abbey Upcycle fel prosiect ecogyfeillgar, gan ailddefnyddio eitemau a fyddai fel arfer yn cael eu sgrapio neu'n mynd i safleoedd tirlenwi, gan roi ail fywyd iddyn nhw. Mae'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi eisoes yn gweld y manteision drwy ddysgu sgiliau newydd, rhoi cynnig ar weithgareddau newydd a theimlo'n falch o weld rhywbeth maen nhw wedi gweithio arno yn dod â llawenydd i bobl eraill.”

Jordan Smith: Regional Manager, Hft

Gan fod gweithgareddau yng Nghaffi Freshfield wedi cael eu gohirio yn ystod y pandemig, cafodd y rheini a oedd yn bresennol gyfle i roi cynnig ar rai gweithgareddau cymunedol, a oedd yn caniatáu awyr iach a chadw pellter cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gardd furiog ym

Mharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas, teithiau cerdded wythnosol yng nghefn gwlad, helpu mewn rhandiroedd ym Magillt. Mae'r cyfranogwyr wedi penderfynu eu bod wedi mwynhau'r gweithgareddau hyn gymaint yr hoffent barhau yn hytrach na dychwelyd i leoliad arlwygo. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu gwasanaeth cyfleoedd dydd newydd o'r enw 'Nature Force'.

Mae grŵp 'Lleisiau i'w Clywed' Hft o unigolion ag anableddau dysgu yn parhau i fod yn weithgar o ran cefnogi i ddatblygu'r gwasanaeth. Yn ddiweddar, penderfynodd y grŵp ar ba adloniant, bwyd a thema yr hoffent ei gael ar gyfer y ddawns haf sydd ar y gweill ac yn y gwasanaethau arlwygo newydd sy'n cael eu datblygu yn Hwb Cyfle. Mae'r grŵp hefyd wedi dewis enwau newydd ar gyfer rhan o'r gwasanaeth ac wedi helpu i ail-ddylunio ac ail-lansio Pantri Rowley yn Gaffi Dai.

Prosiect SEARCH | SAC 2.2

Rhaglen sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol yw SEARCH ar gyfer cefnogi pobl ag anableddau dysgu i ennill y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i gael gwaith llawn amser.

Gan weithio gyda Thiwtor a Hyfforddwr Gwaith o Hft, nod y Prosiect SEARCH yw trochi pobl ifanc, neu 'interniaid' mewn amgylchedd gwaith go iawn. Mae hyn yn cynnwys mynd drwy hyfforddiant a chynefino cychwynnol, cysgodi gweithwyr eraill,

cymryd egwyliu arferol, bwyta cinio gyda staff eraill gan arwyddo i mewn ac allan, darparu a gwisgo'r wisg gywir, delio â goruchwyliwr a chael eu gwerthuso ar berfformiad.

Dros gyfnod o flwyddyn, bydd gan bob intern brofiad o 3 math gwahanol o swyddi gyda'r busnes cynnal, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a busnesau eraill o amgylch y Fflint.

“Mae bod yn rhan o Brosiect SEARCH wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fy mywyd, nid dim ond o ran gwaith ond yn fy mywyd personol. Mae'r staff wedi bod yn gefnogol iawn, yn enwedig yn ystod pandemig Covid. Doeddwn i ddim wedi cael y cymorth hwnnw yn yr Ysgol na'r Coleg, felly rydw i'n ddiolchgar iawn fy mod i wedi cael y cyfle hwn, neu byddwn i wedi cael pethau'n anodd iawn mewn bywyd, ac ni fyddwn i mor hyderus ag ydw i nawr hebbyddyn nhw.”

Pan ddechreuais i ar Brosiect SEARCH yn ôl ym mis Hydref 2020, roeddwn i'n berson swil iawn a doeddwn i ddim wir yn siarad â phobl nad oeddwn i'n eu hadnabod, ac roeddwn i'n berson eithaf



pryderus nad oedd gen i lawer o hyder ynof fy hun. Gyda chymorth gan Project SEARCH dros y ddwy flynedd diwethaf a thrwy gredu ynof fi fy hun, gallaf yn awr siarad â phobl nad wyf yn eu hadnabod yn dda iawn, rwy'n fwy parod i roi cynnig ar bethau newydd y byddwn i hyd yn oed yn rhy nerfus i roi cynnig arnynt o'r blaen ac mae fy hyder wedi cynyddu'n aruthrol ac rwy'n gwybod y gallaf wneud unrhyw beth y byddaf yn rhoi fy meddwl iddo.

Gyda Phrosiect SEARCH, mae gennych chi 3 chylch i'w cwblhau tra byddwch chi ar y rhaglen. Ar y cylch cyntaf, roeddwn yn gweithio fel Cynorthwydd Cymunedol i Glwyd Alyn, a fu o gymorth mawr i mi fagu hyder a pharatoi fy hun ar gyfer y gweithle. Daeth swydd Kickstart ar gael ar gyfer y rôl hon tra roeddwn i'n dal i wneud fy lleoliad. Penderfynais fynd amdani a chael y swydd. Roeddwn i'n ecstatig pan ges i wybod, roeddwn i'n crïo! Rwyf bellach wedi bod yn gweithio i ClwydAlyn ers mis Ionawr ac ers hynny rwyf wedi bod yn dysgu cymaint o sgiliau

newydd. Ers gadael Prosiect SEARCH, rydw i wedi cael hyfforddwr swydd dilynol gan HFT sy'n wych ac sydd wedi bod yn fy helpu i barhau i ddatblygu fy hyder a'm gwytnwch, sy'n bwysig iawn i mi."

Ar gyfer rhaglen nesaf Prosiect SEARCH yn 2022/23, mae partneriaeth newydd wedi cael ei datblygu gyda GXO ar Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy, a fydd yn gweithredu fel y cyflogwr sy'n cynnal y rhaglen i bobl ifanc dan 25 oed. Mae GXO yn edrych ymlaen at gael yr interniaid ifanc fel rhan o'u tîm.

Bydd y bartneriaeth gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alyn yn parhau, gan mai hwy fydd y cyflogwr sy'n cynnal Prosiect SEARCH cyntaf y DU ar gyfer pobl dros 25 oed. Bydd y rhaglen newydd hon yn cael ei lansio yn ystod haf 2022.

C2A | SAC 4.2

Mae'r Tîm Plant i Oedolion (C2A) yn cefnogi plant rhwng 0-25 oed a'u teuluoedd. Mae plant iau (dan 16 oed) yn cael eu cefnogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt drwy gydol eu blynyddoedd cynnar ac mae pobl ifanc dros 16 oed yn cael eu cefnogi gan dîm C2A drwy'r newidiadau sy'n dod gydag oedran e.e. Gadael ysgol, dod o hyd i waith, gwneud ffrindiau newydd, datblygu diddordebau.

Mae teuluoedd plant a phobl ifanc ag anableddau hefyd yn cael eu cefnogi gan y fîm.

Mae gan Sir y Fflint broses bontio lwyddiannus mewn gwasanaeth anableddau dysgu sy'n helpu unigolion, teuluoedd a gofaluwr i gynllunio ar gyfer trosglwyddo o 16 oed ymlaen. Mae'r unigolion a'r teuluoedd yn cael eu cefnogi gan eu Gweithiwr Cymdeithasol ac mae cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer symud ymlaen i wasanaethau oedolion. Mae fîm sy'n gweithio gydag unigolion yn cwrdd bob mis i wneud cynlluniau manwl ar gyfer person ifanc ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r adran Addysg, Iechyd, Gyrfa Cymru.

Mae'r fîm wedi adolygu a diweddarau ei adnodd staffio, gyda Rheolwr amser llawn a 2 Uwch Ymarferydd yn cynnig cefnogaeth i dîm amrywiol o Weithwyr Cymdeithasol, Swyddogion Gofal yn y Gymuned a Chynorthwywyr Gwasanaethau Plant. Mae'r fîm yn parhau i adolygu gwasanaethau a ffyrdd o ddatblygu'r rhain. Dyma rai o'r pethau sy'n cael eu datblygu:

- Cynyddu'r opsiynau lleol i bobl iau barhau i ddysgu a datblygu ar ôl gadael yr ysgol. Bydd hyn yn lleihau'r angen am golegau preswyl arbenigol ac yn rhoi cyfle i bobl fyw a gweithio'n lleol, cadw perthnasoedd teuluol a chyfeillgarwch, bod yn fwy annibynnol a llai dibynnol ar gefnogaeth ffurfiol.

- Adolygu'r defnydd o gefnogaeth i fynychu grwpiau cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae pawb sy'n mynychu yn cael eu cefnogaeth eu hunain, a thrwy rannu hyn, byddai gan bobl fwy o opsiynau a byddai'r cymorth yn canolbwyntio ar y rheini sydd ei angen.
- Parhau i ddefnyddio'r model Cynnydd mewn trefniadau Byw â Chymorth, ac ehangu'r model mewn meysydd gwaith eraill sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fod yn fwy annibynnol ac yn llai dibynnol ar gymorth ffurfiol.
- Gweithio'n rhanbarthol i sicrhau bod Sir y Fflint yn elwa o ddatblygu'r Strategaeth Cyflogaeth Anabledd Dysgu Ranbarthol, gan fanteisio ar gyfleoedd a gynigir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, grwpiau rhanbarthol a chyflogwyr lleol.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- Lansio'r Rhaglen Prosiect SEARCH ar gyfer pobl dros 25 oed. | SAC 4.2
- Datblygu gwasanaethau cyfleoedd dydd ymhellach ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. | SAC 2.2

Adran 4

Awtistiaeth

Yn 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chod Ymarfer ar ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu cynllun gweithredu lleol sy'n ymdrin ag agweddau megis asesu, ymwybyddiaeth staff a hyfforddi, er mwyn sicrhau'r dyletswyddau a nodir yn y Cod Ymarfer.

Mae rhai datblygiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys:

- Mae [tudalennau Awtistiaeth](#) newydd wedi cael eu datblygu ar wefan y Cyngor, sy'n rhoi gwybodaeth i bobl mewn un lle am wasanaethau a chefnogaeth i unigolion awtistig, eu teuluoedd, Gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw.
- Mae pobl ifanc â phrofiad uniongyrchol wedi datblygu sesiwn Ymwybyddiaeth Niwroddatblygiadol i godi ymwybyddiaeth o'r gwerth y mae pobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth a dyspracsia yn ei gael yn y gweithle. Bydd y sesiwn yn cael ei chynnal yng Ngwanwyn 2022.
- Mae Aelod Etholedig o Sir y Fflint wedi dod yn Hyrwyddwr Awtistiaeth ar gyfer Gogledd Cymru, ac mae'n hyrwyddo mentrau ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar draws y rhanbarth, gan gysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod gan Sir y Fflint gysylltiadau â datblygiadau ac arferion cenedlaethol a rhanbarthol.



- Mae swydd Gwaith Cymdeithasol newydd wedi cael ei chreu i gefnogi pobl ifanc sydd ag awtistiaeth ac anghenion gofal cymdeithasol eraill, er mwyn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc i gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru | SAC 1.1

Mae Cyngor Sir y Fflint yn parhau i gynnal [Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru](#) (NWIAS) ar ran y rhanbarth a'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig parhad o ran cefnogaeth i unigolion awtistig drwy'r gwahanol newidiadau yn eu bywydau, ac yn helpu pobl i gyflawni'r pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwasanaeth ar gyfer unigolion nad oes ganddynt anabledd dysgu neu iechyd meddwl canolig i ddifrifol.

Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn brysur yn hyfforddi ac yn codi ymwybyddiaeth ac wedi cynnal grwpiau 'deall awtistiaeth' ar-lein ar gyfer oedolion sydd newydd gael diagnosis. Mae llyfryn hyfforddiant gweithredol yn cael ei ddatblygu gan y tîm ac mae'n cael ei ryddhau i'r rhai sy'n bresennol mewn penodau wrth iddynt fynychu bob wythnos. Mae hyfforddiant cymorth i rieni wedi cael ei ddatblygu hefyd ac mae staff wedi cael eu hyfforddi i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi rhieni a gofalwyr pobl ifanc awtistig rhwng 10 ac 16 oed.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i dderbyn canmoliaeth am eu gwaith. Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth:

"Heb or-ddweud, rydych chi wedi rhoi'r cam cyntaf i mi ar lwybr cwbl newydd yn fy mywyd, ac rwy'n siŵr y byddaf yn diolch i chi eto yn y dyfodol am y llwyddiant rwy'n siŵr y gallaf ei gyflawni nawr fy mod yn deall yn well pwy ydw i, a phwy ydw i erioed wedi bod."



Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- Datblygu cyfleoedd i unigolion awtistig gael gafael ar wasanaethau'n lleol. | SAC 4.2
- Gweithio yn ôl y cynllun gweithredu i wella cydymffurfiaid â'r Cod Ymarfer Awtistiaeth Cenedlaethol ymhellach. | SAC 4.1

Adran 4

lechyd meddwl

Cymorth lechyd Meddwl gan y Gwasanaethau Cymdeithasol | SAC 2.2

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn gweithio mewn partneriaeth ag unigolion a'u teuluoedd fel y gall pobl fyw bywydau ystyrlon ac annibynnol yn y gymuned. Rhan allweddol o hyn yw helpu i atal argyfwng, osgoi derbyniadau i'r ysbty a chefnogi rhyddhau cleifion i'r gymuned. Mae'r gwasanaethau'n defnyddio'r 'dull adfer' i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol, i ymuno â gweithgareddau cymdeithasol a hamdden, i gael eu cyflogi ac i gymryd rhan mewn gwirfoddoli neu addysg.

Bydd y gefnogaeth y gall fod ei hangen ar berson yn amrywio o berson i berson ac mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Gall hyn gynnwys cymorth dwys a chanolig, yn ogystal â darpariaeth yn y gymuned, yn ogystal â chymorth i gael gwaith a gwirfoddoli.

Mae **Camau Nesaf** yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i bobl fynd i fyd addysg, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol a chyflogaeth. Gallant hefyd helpu pobl i aros mewn gwaith os ydynt eisoes yn gyflogedig. Mae'r tîm Camau Nesaf yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill fel Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, canolfan gwirfoddoli Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint a phrifysgolion a cholegau lleol.

Cyflwynodd y fim gwrs 'Cyflwyniad i Wirfoddoli' ar-lein ym mis Ebrill 2021. Roedd defnyddio llwyfan ar-lein yn gweithio'n dda i lawer gan eu bod yn gallu cymryd rhan mewn grŵp, tra'n dal mewn "lle diogel". Aeth y cyfranogwyr yn eu blaen i swyddi gwirfoddoli, dau ohonynt o fewn gwasanaethau iechyd meddwl. Mae un unigolyn bellach yn mynd i'r coleg.

"Mae'r cwrs hwn wedi agor fy llygaid. Roedd yn grŵp a thiworiaid anhygoel. Mae gen i lawer o ddyled i'r cwrs hwn ac rydw i mor falch fy mod wedi cymryd y cam i wneud y cwrs hwn. Diolch am fy helpu."

"Alla i ddim diolch digon i chi am yr holl waith rydych chi'n ei wneud ac am eich holl ymdrech gyda mi ers y dyddiau cynnar. Roeddwn i ar goll yn llwyr"

Mae Rhaglen Dysgu ar gyfer Adfer a Llesiant Sir y Fflint yn fenter ddatblygedig aml-asiantaeth sy'n hyrwyddo gweithgareddau dysgu a chymdeithasol sy'n hygyrch yn lleol i unrhyw un yn Sir y Fflint sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl a/neu eu gofalwyr. Ei nod yw gwella lles unigolyn drwy gwrdd â ffrindiau newydd, datblygu hyder a dysgu sgiliau newydd.

"Rydw i wedi bod yn cael trafferth gyda fy iechyd meddwl oherwydd gorbryder. Gwnaeth y sesiwn hon i mi sylweddoli os ydw i am aros yn ofalwr a bod yno i fy nheulu, mae angen i mi wneud rhywbeth i mi sy'n ymlaciol ac yn bleserus ac sy'n dysgu sgil newydd i mi. Ers hynny, rwyf wedi cofrestru ar gwrs trin blodau ac yn bwriadu dilyn gyrfa mewn trin blodau. Diolch am roi'r cyfle i mi fagu hyder, cwrdd â phobl newydd a dysgu"

"Roeddwn i eisiau diolch i chi am eich holl ymdrech i drefnu gweithgareddau Llesiant Sir y Fflint. Rydw i wedi bod yn mynychu sesiynau ers rhai blynyddoedd erbyn hyn ac rydw i wedi elwa'n aruthrol. Mae ennill sgiliau newydd wedi helpu fy iechyd meddwl, fy nghael i allan o'r tŷ pan fyddwn i fel arall yn aros gartref, yn poeni am bethau"

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae [Double Click Design](#) wedi datblygu gwefan ar gyfer y rhaglen gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru yn www.flintshirewellbeing.org.uk Mae hyn yn ategu'r llyfryn sydd hefyd yn cael ei gynhyrchu gan Double Click.



Yn gynnar yn 2022, ymestynnodd y Tîm Lles ac Adfer ei wasanaethau o fod yn un gwasanaeth Gweithiwr Cymdeithasol Llesiant ac Adfer i ddau. Mae'r gweithiwr wedi bod yn cefnogi'r 'Grŵp Brwydro Bywyd', a sefydlwyd ym mis Ebrill 2021. Mae'r grŵp yn grŵp cymorth therapiwtig sy'n cael ei arwain gan gymheiriaid ar gyfer pobl sydd wedi cael diagnosis, neu bobl sy'n uniaethu â nodweddion 'anhwylder personoliaeth' (PD). Mae'r grŵp yn darparu man diogel sy'n cael ei arwain gan gymheiriaid yn rheolaidd ac yn therapiwtig i aelodau er mwyn i bobl rannu eu profiadau o ran

ei chael hi'n anodd cynnal perthnasoedd, cymryd risgiau a rheoli emosiynau. Cafodd ei sefydlu oherwydd nad oedd unrhyw gymorth arbenigol ar gael yn y maes hwn i bobl â'r profiadau hyn er bod y galw'n uchel.

“Roeddwn i newydd gael diagnosis o Anhwylder Deubegynol a gofynnwyd i mi a fyddwn i'n hoffi ymuno â'r grŵp hwn. Ac felly fe wnes i oherwydd does dim byd arall ar gael ac mae'n ymddangos nad oes gan y GIG ddim byd. Dyma'r peth cyntaf sydd wedi fy helpu i mewn gwirionedd...mae wedi fy helpu gan fod pobl eraill yn fy sefyllfa sy'n deall. Mae fy hyder wedi cynyddu'n aruthrol. Yr holl bobl wych hyn yn y grŵp hwn yw fy nheulu. Pryd bynnag y byddaf yn cael trafferth yn ystod yr wythnos, y cyfan y mae'n rhaid i mi ei wneud yw aros tan ddydd Mercher...mae'n fy helpu i aros ychydig yn fwy sefydlog nag y byddwn i'n ei wneud fel arfer”.

Ym mis Chwefror 2022, cyflwynodd y grŵp adroddiad i bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru fel ymateb i'w hymgyngoriad ar gydraddoldeb ym maes iechyd meddwl. Gellir gweld eu papur [yma](#).



Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- Mae gan Brwydro Bywyd gynlluniau i fod yn grŵp sy'n cael ei redeg gan gyfoedion ac i ymestyn i grŵp arall y byddant yn helpu i'w gefnogi. | SAC 1.1
- Mae Camau Nesaf nawr yn rhedeg eu rhaglen gwirfoddoli uwch fel cam i fyny o'r un a redwyd ganddynt y llynedd. | SAC 3.2.

Adran 4

Gofalwyr



Rydym yn falch o'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i Ofalwyr yn Sir y Fflint, ac mae pob un ohonynt wedi bod yn gweithio'n ddiflino gyda gofalwyr.

Gellir cael gafael ar wasanaethau i ofalwyr drwy 'borth' gyda [Newcis](#), sydd wedyn yn gallu cyfeirio at wasanaethau a ffynonellau cymorth eraill sy'n seiliedig ar anghenion. Gallai hyn gynnwys asesiad o anghenion gofalwyr, mynediad at ffynonellau cyllid, cyfeirio at wasanaethau arbenigol ar gyfer rhieni sy'n ofalwyr a gofalwyr pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, yn ogystal â chymorth i ofalwyr ifanc.

Gwasanaeth Cefnogi Gofalwyr Ifanc | SAC 1.1

Mae Gofalwyr Ifanc yn darparu cefnogaeth hanfodol i'w teuluoedd a'u hanwyliaid ac

mae'r Cyngor yn eu gwerthfawrogi'n fawr am eu hymrwymiad a'u hanhunanoldeb. Mae'r [Gwasanaeth Cefnogi Gofalwyr Ifanc](#) a ddarperir gan Newcis yn darparu un pwynt mynediad agored i bob gofalwr ifanc hyd at 25 oed, eu teuluoedd, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau partner.

Mae'r pandemig wedi bod yn gyfnod arbennig o heriol i ofalwyr ifanc, ac mae'r gwasanaeth wedi helpu gofalwyr ifanc i gael seibiant o'u rôl fel gofalwyr drwy ddarparu grwpiau, gweithgareddau, tripiâu, grantiau, cwnsela a seibiant.

"Mae'r gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn teimlo ei fod wedi bod yn rhan o'n teulu erioed. Maen nhw fel aelod arall o'r teulu sydd yno i'ch helpu a'ch cefnogi chi, rhywun i ddibynnu arno. Rydw i'n gwybod bod modd i mi gysylltu a

byddant yn ein helpu ni. Mae'r bechgyn yn cael llawer o fudd o fod yn rhan o'r gwasanaeth ac mae'r staff wedi gwneud gwahaniaeth mawr iddyn nhw."

Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru | SAC 2.2

Ym mis Mawrth 2022, dathlodd [cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc](#) Gogledd Cymru ei ben-blwydd cyntaf ar Ddiwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc. Nod y cerdyn adnabod yw helpu gweithwyr proffesiynol gan gynnwys meddygon, athrawon a fferyllwyr i adnabod gofalwyr ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cynnig y gefnogaeth briodol sydd ei hangen arnynt ac y maent yn ei haeddu.

Ym mis Mawrth 2022, roedd 258 o ofalwyr ifanc wedi cofrestru gyda Newcis a 72 gyda cherdyn adnabod yn Sir y Fflint.

Cynllun seibiant Pontio'r Bwlch | SAC 2.2

Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Seibiant Brys wedi galluogi gweithio gyda phartneriaid i ymestyn y cymorth sydd ar gael drwy adnoddau ychwanegol i'r cynllun seibiant ['Pontio'r Bwlch'](#) sydd wedi ennill gwobrau.

Drwy gydol y pandemig, mae'r cynllun wedi cael ei lethu gan geisiadau, ac mae'r cyllid ychwanegol a gyfeirir at hyn wedi bod o fudd i lawer o Ofalwyr. Fel rhan o ddefnyddio'r cyllid Pontio'r Bwlch mewn

ffordd arloesol, mae'r 'Grant Pontio'r Bwlch i Deuluoedd' wedi cael ei gyflwyno. Gellir defnyddio hyn i helpu gyda chostau i aelod o'r teulu ddod i gynnig cefnogaeth gyda thasgau ymarferol neu ofalu, neu i dalu am eu costau os byddant yn mynd â'r unigolyn sy'n derbyn gofal allan am y diwrnod, fel seibiant i'w prif ofalwr.

Drwy'r cyllid, cefnogwyd Gofalwyr drwy NEWCIS a Thîm Taliadau Uniongyrchol y Cyngor i gael [Taliad Uniongyrchol](#) i gefnogi seibiant ar sail eu Hasesiadau o Anghenion Gofalwyr. Cafodd gofalwyr eu nodi a oedd wedi cael cymorth drwy ddulliau oedd wedi eu gwreiddio, ond roedd angen rhywbeth gwahanol arnynt i gefnogi eu hanghenion.

Defnyddiwyd y cyllid i:

- Leihau'r galw ar aelodau o'r teulu
- Gwelliant amlwg yn iechyd a lles y gofalwr
- Galluogi aelod o'r teulu i barhau i wirfoddoli
- Adeiladu a mynd ati i gefnogi nifer o rolau gofalu

Bydd defnydd arloesol o Daliadau Uniongyrchol yn parhau i gael ei archwilio yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae mewnbwn gan Ofalwyr wedi bod yn hanfodol i'n helpu ni i ddatblygu camau gweithredu a blaenoriaethau lleol ar gyfer Strategaeth Dementia Sir y Fflint. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn adran 4 – Pobl Hŷn.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- Datblygu'r cynnig Taliad Uniongyrchol i ofalwyr. | SAC 3.2
- Datblygu'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc ymhellach – cerdyn adnabod i ofalwyr ifanc. | SAC 2.2

Adran 4

Diogelu

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid | SAC 4.1

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a'u partneriaid yn gweld newid yn y gweithdrefnau o ran gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a fydd yn berthnasol i bawb dros 16 oed. Bydd y mesurau diogelu newydd yn darparu amddiffyniadau a hawliau pwysig i bobl nad oes ganddynt y gallu meddyliol i gytuno ar drefniadau gofal, cymorth neu driniaeth, lle mae'r trefniadau hyn yn golygu amddifadu rhywun o'i ryddid. Bydd y gweithdrefnau hyn yn disodli'r Trefniadau Diogelu presennol rhag Colli Rhyddid.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Rheoliadau a'r Cod Ymarfer drafft. Mae Timau Diogelu Lleol yn dilyn y datblygiadau'n agos ac mae cydweithwyr eisoes yn dechrau cynllunio ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. SAC: 4.1.

Modiwl dysgu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) | SAC 4.1

Mae gweithwyr yn parhau i gael eu hannog i gwblhau modiwl e-ddysgu VAWDASV Llywodraeth Cymru, mae 86% o weithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cwblhau'r modiwl ym Mawrth 2022.

Mae'n ofynnol i bob gweithiwr newydd gwblhau'r modiwl fel rhan o'u proses gynefino.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- Paratoi ar gyfer rhoi Trefniadau Amddiffyn Rhyddid newydd ar waith. | SAC 4.1
- Parhau i hyrwyddo'r pecyn e-ddysgu diogelu corfforaethol. | SAC 4.1
- Parhau i sicrhau bod y cyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu oedolion a phlant yn cael eu cyflawni. | SAC 2.1
- Bydd gwasanaethau Contractau ar gyfer Eiriolaeth yn cael eu hadolygu. | SAC 1.1

Adran 5

Sut rydym yn Gwneud Beth rydym yn ei Wneud

a) Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu Swyddogaethau proffesiynol

Tîm Datblygu'r Gweithlu | SAC 1.2

Mae ein Tîm Datblygu'r Gweithlu yn cynnig hyfforddiant drwy hyfforddwyr mewnol ac allanol gan ddefnyddio llwyfannau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae hyfforddiant yn rhad ac am ddim ac ar gael i'r rheini sy'n gweithio (gyda thâl neu'n ddi-dâl) ym maes gofal cymdeithasol ledled Sir y Fflint, gan gynnwys ein gwasanaethau sector annibynnol a gwirfoddol.

Mae'r tîm yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant uniongyrchol a datblygu sesiynau datblygu pwrpasol. Bob blwyddyn, rydym yn datblygu cyfeiriadur hyfforddi blynyddol sy'n cael ei ddatblygu yn erbyn dadansoddiad cadarn o asesiad o anghenion; ei adolygu yn erbyn y fframweithiau cymwysterau newydd a gwerthuso cyrsiau blaenorol.

Rydym ni'n cefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol mewnol drwy gydol taith eu cymhwyster gwaith cymdeithasol ac yn ystod eu 3 blynedd gyntaf yn ymarfer.

Mae ein Haseswyr yn cefnogi staff gofal cymdeithasol i gwblhau eu cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cymwysterau hyn ar gael i unigolion sy'n gweithio ym maes gwasanaethau oedolion: pobl hŷn, iechyd meddwl, anabledau dysgu, gofal preswyl a gofal cartref.

Llwyddiannau yn ystod 2021 / 2022:

- Wedi hwyluso dros 321 o sesiynau hyfforddi (cynnydd o 44% ar y llynedd) ar 111 o bynciau (cynnydd o 44% ar y llynedd) drwy addasu ein hyfforddiant yn barhaus yn unol â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a chyflwyno heriau. Daeth dros 3000 o ymgeiswyr i'r sesiynau hyn (cynnydd o 20% ers y llynedd).
- Datblygu rhaglen addysgu a dysgu ar gyfer y cymhwyster craidd mewn gofal cymdeithasol sy'n addas i'r diben ac sy'n bodloni gofynion City and Guilds.
- Cafodd y Ganolfan Asesu adroddiad Sicrhau Ansawdd Allanol cadarnhaol iawn (Asesiad o Gymhwyster Allanol o ymweliad ym mis Ionawr 2022).
- Cefnogwyd 8 o fyfyrwyr newydd dan hyfforddiant gwaith cymdeithasol a pharhau i gefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol presennol yn eu cymhwyster ym mlwyddyn 2 a 3.
- Dechrau cefnogi cwrs gradd rhan amser 4 blynedd mewn partneriaeth â Choleg Cambria ar gyfer hyfforddeiaeth Therapi Galwedigaethol.
- Parhau i weithio gyda Chymunedau am Waith i gyflwyno'r cwrs 'Llwybr i Ofal Cymdeithasol' sy'n cynnig cymwysterau a gwybodaeth am sut i weithio ym maes gofal cymdeithasol.

“Rwy’n teimlo’n falch iawn fy mod wedi cael y cyfle hwn i fynychu’r cwrs gan ei fod wedi rhoi sylfaen ardderchog i mi ymgeisio’n hyderus am waith ym maes gofal cymdeithasol. Rwy’n falch o ddweud fy mod wedi llwyddo i gael swydd gyda Chyngor Sir y Fflint fel Gweithiwr Cymorth Anabledd Dysgu.”

Cefnogi Staff Sir y Fflint | SAC 1.2

Drwy gydol y pandemig, mae pob aelod o staff wedi cael cynnig mynediad at CareFirst, rhaglen cymorth i weithwyr. Mae CareFirst yn cynnig cymorth gyda straen yn y gweithle, problemau a rheoli cydbwysedd bywyd a gwaith.

“Fe wnaeth fy asesydd gwrdd â mi ar ôl pob modiwl i roi awgrymiadau i mi ynghylch lle roedd angen i mi gryfhau fy ngwybodaeth. Os oedd angen ychydig o gymorth ychwanegol arnaf, roeddwn i’n teimlo ei bod hi bob amser yn awyddus i roi o’i hamser i’m cefnogi. Roedd hyn yn fy helpu i fagu hyder a theimlo y byddai gen i’r sgiliau a’r wybodaeth iawn i fod yn llwyddiannus”.

Yn ystod y Pandemig, mae staff wedi cael cyfarpar a chymorth TG i sicrhau amgylchedd gweithio diogel a di-straen yn y cartref.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23: | SAC 1.2

- Ymrwymiad clir i gefnogi ac annog y gweithlu i allu cael gafaél ar hyfforddiant yn ddwyieithog lle bo hynny ar gael yn unol â fframwaith strategol ‘Mwy na Geiriau’.
- Parhau i gefnogi darparwyr a staff a rheolwyr gofal cymdeithasol i gwblhau’r cymwysterau rheoli gofynnol er mwyn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Byddwn yn gweithio i helpu i gynyddu sgiliau digidol ein gweithlu, gan eu galluogi i weithio a dysgu gan ddefnyddio technoleg briodol.
- Byddwn yn parhau i gefnogi staff i gwblhau :-
 - Dyfarniad Lefel 2 mewn Dementia
 - Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cymhwyster craidd
 - Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
 - Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Parhau i gefnogi hyfforddiant cymhwysu mewn gwaith cymdeithasol a hyfforddiant ôl-gymhwysu yng Nghymru, gan gynnwys gofynion Fframwaith y 3 Blynedd Gyntaf ar gyfer yr holl Weithwyr Cymdeithasol ôl-gymhwysu sy’n newydd i’r swydd.

Adran 5

b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Cronfa ICF

Mae rhaglen Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau sy'n seiliedig ar refeniw a chyfalaf o dan bedair thema strwythuredig:

- Pobl Hŷn – gan gynnwys gwasanaethau cymorth amgen i osgoi derbyniadau i'r ysbyty a chefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty, mwy o gapasiti ar gyfer gofal preswyl a gofal yn y cartref a modelau gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol.
- Ymyrraeth Gynnar – darparu cymorth ataliol ac wedi'i dargedu i deuluoedd, gan gynnwys gwasanaethau a chefnogaeth ailberchnogi a lleihau'r risgiau i bobl agored i niwed.
- Anabledd Dysgu – darparu gofal a chymorth i blant ag anableddau neu anghenion gofal cymhleth, gan gynnwys gwasanaethau seibiant a chynnydd i oedolion ifanc er mwyn cynyddu annibyniaeth.
- Dementia – mwy o ffocws ar gefnogaeth ac ymgysylltu yn y cartref ac yn y gymuned ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

Er y disgwylir i raglen ICF ddod i ben ym mis Mawrth 2022. Bydd ICF wedyn yn cael ei disodli gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) newydd dros bum mlynedd. Bydd y rhaglen RIF yn hyrwyddo cydweithio rhwng y Cyngor, y Bwrdd Iechyd, darparwyr annibynnol a'r trydydd sector i weithredu chwe model gofal blaenoriaeth:

- Gofal yn y Gymuned – Atal a Chydlynu
- Gofal yn y Gymuned – Gofal yn Nes at Adref
- Gartref o'r Ysbyty
- Cefnogi Teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal
- Atebion sy'n seiliedig ar Lety
- Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da

Gwerth Cymdeithasol

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r diffiniad o Werth Cymdeithasol fel y nodir gan Social Value UK: "Mae Gwerth Cymdeithasol yn ffordd o feddwl am sut mae adnoddau prin yn cael eu dyrannu a'u defnyddio. Mae'n golygu edrych y tu hwnt i bris pob contract unigol ac edrych ar beth yw'r budd cyfunol i gymuned pan fydd corff cyhoeddus yn dewis dyfarnu contract." Mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi gwerth ariannol i'r manteision ychwanegol hyn.

Mae rhaglen gwerth cymdeithasol Sir y Fflint ers ei rhoi ar waith wedi ffynnu, gydag oddeutu 90% o'r holl weithgarwch caffael yn cael ei gefnogi i gynnwys gwerth cymdeithasol. Rhwng mis Ionawr a mis Medi 2021, cofnodwyd bod gwerth cymdeithasol gwirioneddol dros £2.2m wedi cael ei ddarparu yn Sir y Fflint.

Mae'r gwir werth cymdeithasol a gyflawnwyd wedi arwain at ganlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylweddol yn lleol i Sir y Fflint.

Mae rhai o'r prif uchafbwyntiau'n cynnwys gwario dros £1.6m yn y gadwyn gyflenwi leol gan cefnogi twf economaidd, o gyfleoedd gwaith i 37 drigolion lleol (cyfleoedd newydd a pharhaus), dros 226 o oriau gwirfoddoli wedi'u buddsoddi i gefnogi mentrau cymunedol lleol a thros 190 o wythnosau o hyfforddiant Prentisiaeth wedi'u darparu.

Yn ystod Cynhadledd Gwerth Cymdeithasol Genedlaethol Cymru 2021, rhoddwyd sylw i'r Cyngor gan Hannah Blythyn, y Dirprwy Weinidog dros Bartneriaethau Cymdeithasol, fel awdurdod lleol yng Nghymru sy'n arwain y ffordd o ran cymhwyso gwerth cymdeithasol yn llwyddiannus drwy gomisiynu a chaffael.

Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae'r Cyngor wedi bod yn cyfrannu data a gwybodaeth at ddatblygu Asesiad Anghenion Poblogaeth nesaf Gogledd Cymru. Bydd yr Asesiad yn cael ei gynhyrchu gan chwe chynghor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn nodi'r galw a'r angen presennol a rhagamcanol am ofal a chymorth, a'r ystod a'r math o wasanaethau y bydd eu hangen i ddiwallu'r galw hwnnw.

Bydd yr Asesiad yn sylfaen ar gyfer datblygu darpariaeth yn y dyfodol ar draws sector iechyd a gofal cymdeithasol y rhanbarth, gan sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu'n ddigonol.

Cyhoeddir yr Asesiad ym mis Ebrill 2022 ar [wefan y Cyngor](#).

Bydd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cael ei ddilyn yn 2022 gan Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad. Bydd yr adroddiad rhanbarthol hwn yn darparu asesiad o'r canlynol:

- digonolrwydd y gofal a'r cymorth i ddiwallu'r anghenion a'r galw am ofal cymdeithasol, fel y nodir yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, a
- sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth.

Ochr yn ochr â hyn, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn cynhyrchu Asesiad o Lesiant yn Sir y Fflint. Mae'r asesiad llesiant hwn wedyn yn cael ei ddefnyddio fel sail i ddatblygu cynllun llesiant yr ardal. Bydd yr asesiad llawn yn cael ei gyhoeddi yma, a bydd Cynllun Llesiant yn cael ei ddatblygu yn 2022.

Bydd y wybodaeth hon, a'r blaenoriaethau yn yr adroddiad hwn, yn cael eu hadlewyrchu yng [Nghynllun Cyngor](#) cyfredol Cyngor Sir y Fflint, a fydd yn cael ei ddiweddarau cyn bo hir.

Adran 5

c) Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, llywodraethu ac Atebolrwydd

Pwy ydym ni

Mae Aelodau Etholedig yn cynrychioli trigolion Sir y Fflint ac yn chwarae rhan bwysig yn nhrefn lywodraethu'r Cyngor. Maent yn cytuno ar flaenoriaethau'r Cyngor ac yn cymeradwyo polisiau i gyflawni ei welliant parhaus. Mae gan Gyngor Sir y Fflint 70 o [Aelodau Etholedig](#) sy'n cynrychioli buddiannau eu wardiau ac sy'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor i oruchwylio perfformiad pob agwedd ar y Cyngor.

Etholir un Aelod gan ei gymheiriaid i gynrychioli pob maes portffolio. Gelwir y rhain yn Aelodau Cabinet ac, ynghyd â'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddogion, maent yn ffurfio Cabinet y Cyngor.

Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

Mae pob Aelod o'r Cabinet yn cael ei gefnogi gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yw hwn. Oherwydd y berthynas waith agos gyda'r Portffolio Addysg a Ieuencid, mae'r Cyngor hefyd yn cynnal cyd-gyfarfodydd Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg ac Ieuencid, i drafod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n pontio gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae Arweinydd y Cyngor, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol hefyd yn ymwneud â'r rhaglen gwaith gwasanaethau cymdeithasol drwy Fwrdd y Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'r Aelod Cabinet hefyd yn mynychu cyfarfodydd y

Tim Rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd wedi parhau bron bob mis. Arweinir swyddogion y Cyngor gan y Prif Swyddog Gweithredol a gefnogir gan Brif Swyddogion sy'n gyfrifol am bob un o'r meysydd portffolio. Y Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â rôl statudol "Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol". Mae trefniadau strwythurol y Cyngor ar gyfer aelodau a swyddogion wedi'u nodi'n glir. Mae'r cyfansoddiad yn nodi sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau a ddilyniir i sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol.

Mae gan y Cyngor hefyd ei drefn lywodraethu mewnol ei hun drwy system o archwilio mewnol. Mae canlyniadau archwiliadau'n cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a gellir galw ar swyddogion i roi tystiolaeth i'r pwyllgor pe bai pryderon yn cael eu codi ynghylch eu meysydd gwasanaeth.

Ein gwaith partneriaeth

Mae gan Sir y Fflint hanes cryf o weithio mewn partneriaeth, ac yn Adran 4 rydym yn disgrifio rhai o'r gwasanaethau a'r cynlluniau yr ydym wedi'u datblygu gyda chyrff ac asiantaethau eraill. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint wrth galon ein diwylliant o gydweithio. Sefydlwyd y corff statudol hwn ym mis Ebrill 2016, ac mae'n cynnwys uwch arweinwyr o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Ei nod yw sicrhau bod partneriaid statudol a thrydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd i reoli blaenoriaethau cyffredin drwy gydweithio, ac mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u nodi yn yr [Asesiad o Lesiant yn Sir y](#)

[Fflint 2022.](#)

Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru hefyd yn 2016 ac mae ganddo aelodaeth sy'n cynrychioli cyrff statudol, partneriaid trydydd sector, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn gweithio i wella integreiddio, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng Ngogledd Cymru, ac mae wedi llwyddo yn ei gais am gronfa newydd gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gydweithio'n agos, gyda chyfarfodydd strategol rhwng y prif weithredwyr ac arweinwyr yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Cynhelir llawer o gyfarfodydd gweithredol ar y cyd drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfod craffu arbennig chwe misol lle gwahoddir cydweithwyr ym maes iechyd i fod yn bresennol a chymryd cwestiynau gan aelodau etholedig.

Mae'r cysylltiadau gyda'r sector gwirfoddol yn parhau i gael eu cryfhau drwy ein hymwneud â Chompaict y Sector Gwirfoddol. Mae'r bartneriaeth dair ffordd hon rhwng y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r sector gwirfoddol yn hwyluso cyd-ddealltwriaeth o ran rolau a chyfrifoldebau, ac yn galluogi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i gael eu defnyddio'n llawn. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Prif Swyddog a Chadeirydd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, aelodau eraill o'r sector gwirfoddol, y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor, ac Uwch reolwr o'r Bwrdd Iechyd.

Adran 6

Dewch i Ymuno â'n Tîm Gofal

Dewch i Ymuno â'n Tîm Gofal!

*Eisiau gwneud gwahaniaeth i
fywydau pobl yn eich cymuned?*

*Eisiau cefnogi pobl i fyw eu
bywydau gorau yn eu cartrefi eu
hunain?*

*Eisiau cefnogi pobl i aros mor
annibynnol ag y gallant?*

*Eisiau cyfle i weithio fel rhan o
dîm dynodedig, proffesiynol a
chefnogol?*

-

Os mai eich ateb yw 'oes', yna chi yw'r union
un yr ydym wedi bod yn chwilio amdano!

Rydym yn chwilio am weithwyr gyda'r
gwerthoedd cywir – 'does dim angen
profiad gan y byddwch yn cael hyfforddiant
lawn.

I gael rhagor o wybodaeth am yrfa ddiogel
a llawn boddhad gydag amrywiaeth fawr o
fanteision ac ystod o oriau a phatrymau
sifft, cysylltwch â ni ar 01352 701317 neu ar
ebost:

socialservicesrecruitment@flintshire.gov.uk

"Diolch i chi am y gofal heb ei ail a gafodd ein mam gennych. Roedd eich gofal a'ch caredigrwydd y tu hwnt i unrhyw beth y gallem fod wedi'i ddychmygu. Mae ein mam wedi bod mor hapus efo chi ac wrth ei bodd gyda'r sgyrsiau difyr a'r chwerthin. Mae hi'n caru bob un ohonoch chi! Rydych chi'n bobl arbennig iawn."



Adran 7

Cael gafael ar Wybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol

Gwybodaeth a Deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol Dolenni:

[Fframweithiau Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer
pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd
angen cymorth](#)

[Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
\(Cymru\) 2016](#)

[Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles \(Cymru\) 2014
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)
2015](#)

[Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru](#)

[Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru](#)

[Asesiad o Les yn Sir y Fflint 2022](#)

Dolenni Dogfennau Strategol Allweddol Cyngor Sir y Fflint:

[Cynllun y Cyngor 2018-23](#)

[Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2018-2023](#)

[Sir y Fflint Ddigidol 2021-2026](#)

Eiriolaeth

Yweithred o siarad ar ran neu i gefnogi rhywun arall.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Y sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb o £1.3 biliwn a gweithlu o dros 17,000 o staff. Mae'n darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac aciwt mewn ysbytai ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw llys wedi rhoi gorchymyn gofal i leoli plentyn mewn gofal, neu os yw adran gwasanaethau plant cyngor wedi gofalu am y plentyn am fwy na 24 awr.

Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

Rhaglen waith a ariennir gan Lywodraeth Cymru rhwng y cyngor, y Bwrdd Iechyd a Phartneriaid Trydydd Sector i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn (yn y lle cyntaf) yn cael eu cydlynu'n dda, yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i unigolion ac yn cael eu darparu mor agos â phosibl i'r cartref.

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Darparu fframwaith cyfreithiol sy'n amddiffyn pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal neu ysbytai sy'n agored i niwed oherwydd anhwylder meddwl ac nad oes ganddynt y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau am eu llety a'u hanghenion gofal eu hunain.

Taliadau Uniongyrchol

Rhoi arian yn uniongyrchol i ddefnyddwyr i dalu am eu gofal eu hunain, yn hytrach na llwybr traddodiadol Awdurdod Llywodraeth Leol sy'n darparu gofal iddynt.

Gofal Ychwanegol

Tai a gynlluniwyd gydag anghenion defnyddwyr y gwasanaeth mewn golwg sy'n darparu lefelau amrywiol o gefnogaeth sydd ar gael ar y safle ac sy'n hyrwyddo byw'n annibynnol.

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)

Y mudiad ymbarél a chefnogaeth ar gyfer dros 1200 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint.

HFT

Gelwir ynghynt fel Home Farm Trust. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi comisiynu HFT i ddarparu gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith i bobl ag anabledau dysgu yn y sir.

Cronfa Gofal Integredig (ICF)

Cronfa gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio sbarduno a galluogi gweithio integredig rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol.

Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

Bydd Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn disodli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid presennol, o ran diogelu hawliau pobl sydd o dan lefelau uchel o ofal a goruchwyliaeth ond heb y gallu meddyliol i gytuno ar drefniadau gofal, cymorth neu driniaeth, lle mae'r trefniadau hyn yn golygu amddifadu rhywun o'i ryddid.

Therapi Amlsystemig (MST)

Mae MST yn ymyriad clinigol dwys yn y teulu ac yn y gymuned ar gyfer plant a phobl ifanc 11-17 oed, lle mae pobl ifanc mewn perygl o gael eu lleoli y tu allan i'r cartref naill ai mewn gofal neu yn y ddalfa.

Canolbwyntio ar ganlyniadau

Y diffiniad o ganlyniadau yw effaith neu ganlyniadau terfynol gwasanaethau ar fywyd unigolyn. Mae gwasanaethau a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau felly'n anelu at gyflawni'r dyheadau, y nodau a'r blaenoriaethau a nodwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth (a gofalwyr) – yn wahanol i wasanaethau y mae eu cynnwys a/neu ffurf eu darparu wedi'u safoni neu eu pennu'n gyfan gwbl gan y rhai sy'n eu darparu.

Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)

Mae'r RIF yn disodli'r Gronfa Gofal Integredig gyfredol. Mae'n dwyn ynghyd y Gronfa a'r Rhaglenni Trawsnewid Rhanbarthol dan un rhaglen gyllido 5 mlynedd.

Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Dull sy'n symud oddi wrth weithwyr proffesiynol yn penderfynu beth sydd orau i glaf neu ddefnyddiwr gwasanaeth, ac yn rhoi'r person yn y canol, fel arbenigwr yn ei brofiad ei hun. Mae'r unigolyn, a'i deulu lle bo hynny'n briodol, yn dod yn bartner cyfartal wrth gynllunio ei ofal a'i gymorth, gan sicrhau ei fod yn diwallu ei anghenion, ei nodau a'i ganlyniadau.

Seibiant

Cyfnod byr o ofal dros dro er mwyn darparu gorffwys neu ryddhad i ofalwyr sydd angen seibiant yn eu rôl

Unigolyn Cyfrifol

Rhywun sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth mewn sefydliad neu awdurdod lleol.

Diogelu

Term a ddefnyddir i ddynodi mesurau i ddiogelu iechyd, llesiant a hawliau dynol unigolion, sy'n caniatáu i bobl fyw'n rhydd rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod.

Menter Gymdeithasol

Sefydliad sy'n defnyddio strategaethau masnachol i sicrhau'r gwelliannau mwyaf posibl mewn llesiant dynol ac amgylcheddol – gallai hyn gynnwys cynyddu'r effaith gymdeithasol ochr yn ochr ag elw ar gyfer rhanddeiliaid allanol.

Gwerth Cymdeithasol

Mae gwerth cymdeithasol yn edrych y tu hwnt i gost ariannol gwasanaeth ac yn ystyried pa fanteision ychwanegol ehangach y gellir eu creu i'r gymuned. Bydd gweithredu'r Strategaeth Gwerth Cymdeithasol yn elfen allweddol wrth gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gwasanaethau Statudol

Gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol fel mater o drefn, enghreifftiau o'r mathau hyn o wasanaethau yw gofal cartref a seibiant.

Camu i fyny / camu i lawr

Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi gweithwyr proffesiynol i gefnogi unigolion i ddychwelyd i fyw'n annibynnol, yn hytrach na chael eu derbyn i'r ysbyty neu i helpu pobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Gelwir weithiau'n 'rhyddhau i asesu'.

Y Trydydd Sector

Y rhan o economi neu gymdeithas sy'n cynnwys sefydliadau neu gymdeithasau anllwywodraethol a dielw, gan gynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cydweithrediadau ac ati.

Lles

Cyflwr o fod yn gyfforddus, yn iach neu'n hapus.

Atodiad 1

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

7,318

Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ymwneud ag oedolion yn ystod y flwyddyn

5,552

Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ymwneud ag oedolion yn ystod y flwyddyn pan gafodd cyngor neu gymorth eu rhoi

(mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys 703 o gysylltiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol statudol a arweiniodd at gyngor a chymorth gan ein gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol).

3,242

Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn

28%

Canran yr asesiadau lle'r aethpwyd ymlaen i lunio cynllun gofal a chymorth er mwyn cyflawni'r canlyniadau

Ar ddiwrnod olaf y flwyddyn roeddem yn helpu **1,094** o bobl dros 65 oed i fyw yn eu cartrefi a **499** o bobl hŷn mewn cartrefi gofal

82 yrs

Oed cyfartalog yr oedolion aeth i gartrefi gofal preswyl oedd

42%

Canran y bobl â phe cyn cymorth yr adolygwyd eu pecyn gofal o fewn y cyfraddau amser angenrheidiol

374

Nifer y bobl a gwblhaodd becyn ail-alluogi yn ystod y flwyddyn

1,719

Nifer o oedolion sy'n ofalwyr a gafodd eu hadnabod a'u hatgyfeirio at ein darparwyr gwasanaethau gofalwyr

358

Nifer y bobl a gomisiynodd eu gwasanaethau eu hunain drwy daliad uniongyrchol

755

Nifer yr adroddiadau diogelu oedolion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn

92%

Canran o'r rhain a ddatblygodd yn ymholiadau Adran 126 a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod

291

Nifer o achosion sy'n aros am asesiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn Sir y Fflint

Gwasanaethau Plant

12,910

Nifer y cysylltiadau â'r gwasanaethau statudol a dderbyniwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

9,894

Nifer y cysylltiadau hyn y darparwyd cyngor neu gymorth ar eu cyfer

1,336

Nifer y teuluoedd a dderbyniodd wybodaeth a chymorth drwy'r Canolbwynt Cymorth Cynnar

128

Nifer y plant ar gofrestr Diogelu Plant Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2022

99%
a 93%

Canran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynol a'r cynadleddau adolygu a gynhaliwyd o fewn y cyfraddau amser

7%

Canran y plant a ychwanegwyd at y gofrestr a ail-gofrestrwyd o fewn 12 mis o'u dadgofrestru

290
diwrnod

Yr amser cyfartalog yr arhosodd plant ar y gofrestr

107

Nifer y plant â chynllun gofal a chymorth gyda'u hanghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth 2022

50

Nifer y plant/pobl ifanc a adawodd ofal yn ystod y flwyddyn:

1,937

Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn

27%

Canran ohonynt a aeth ymlaen i fod â chynllun gofal a chymorth

49%

Canran ohonynt a oedd ag anghenion y gellid eu diwallu drwy unrhyw dulliau arall

24%

Canran ohonynt nad oedd ganddynt unrhyw anghenion cymwys

248

Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal yn Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2022

Fe wnaethom gymeradwyo **8** gofalwr maeth cyffredinol; mae hyn o fewn y targed o recriwtio **5-10** gofalwr yn ystod y flwyddyn